Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 28 MEHEFIN 2022 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 28 JUNE 2022 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR, AC YN RHITHIOL** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL, AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2022.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd Dros Dro.

**5** **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4, 2021/22** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW ALLDRO 2021/22** (Tudalennau 29 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **ALLDRO CYFALAF 2021/22** (Tudalennau 53 - 70)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **ADRODDIAD ALLDRO'R CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 4, 2021/22** (Tudalennau 71 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **COSTAU BYW – CYNLLUN DEWISOL** (Tudalennau 79 - 84)

Cyflwyno adoddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dafydd Roberts, Mr Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod olaf y Pwyllgor Gwaith o dan y Weinyddiaeth bresennol. Diolchodd i'r holl Swyddogion am eu gwaith a'u cymorth yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac, yn yr un modd, diolchodd i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Diolchodd y Cadeirydd yn arbennig i ddau aelod o'r Pwyllgor Gwaith sydd yn ymddeol cyn yr etholiadau cyngor lleol ym mis Mai, sef y Cynghorwyr R. Meirion Jones ac R. G. Parry, OBE, FRAgs.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd, i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn –

- 9 Mawrth, 2022 (arbennig)
- 21 Mawrth, 2022

**Penderfynwyd cymeradwyo fel rhai cywir, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar –**

**9 Mawrth, 2022 (arbennig)**
**21 Mawrth, 2022**

## 4. PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro, yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Mai i fis Rhagfyr 2022, a nodwyd y newidiadau a ganlyn –

- Eitem 7 – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol: eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2022.
- Eitem 16 – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22: eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2022.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod o fis Mai i fis Rhagfyr 2022, fel y'i cyflwynwyd.**

## 6. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynghylch y newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith argymell y newidiadau i gyfarfod o'r Cyngor Llawn a oedd i'w gynnal yn syth ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor, yr adroddiad gan grynhoi beth oedd y newidiadau arfaethedig yn ei olygu a phwysigrwydd y Cyfansoddiad o ran darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r Cyngor, ac argymhellodd y newidiadau i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pwyllgor Gwaith bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno newidiadau i gylch gorchwyl rhai pwyllgorau, ac yn bennaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Safonau. Diwygiwyd y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac mae'r prif newidiadau sydd yn ymwneud â'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu nodi yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad.

Yn ogystal, bydd yr adolygiad ffiniau diweddar yn arwain at gynyddu nifer y cynghorwyr ar y Cyngor o 30 i 35 ar ôl yr etholiadau, gan olygu y bydd angen cynyddu maint rhai pwyllgorau.

Lle ceir dewis, cynigir bod nifer y seddi ar bwyllgorau'n cael eu cynyddu yn gymesur â'r cynnydd yng nghyfanswm yr aelodau etholedig, gyda'r nifer yn ei dalgrynnu i fyny lle bo angen. Nodir y newidiadau hyn yn y tabl a gynhwysir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor -**

- **Ei fod yn mabwysiadu'r newidiadau i'r Cyfansoddiad a nodir yn yr adroddiad.**
- **Ei fod yn cytuno i wneud y newidiadau a argymhellir ac yn dirprwyo pŵer i'r Swyddog Monitro wneud y newidiadau sy'n cael eu hargymell i'r Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau ategol neu ganlyniadol sy'n codi.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 28 Mehefin 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â’i Gyfansoddiad, mae’n ofynnol i’r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a’i diweddaru’n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau’r Cyngor a’r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae’r Pwyllgor yn debygol o’u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau’r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2022 – Chwefror 2023;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini’r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru’n fisol a’i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i’r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2022 – Chwefror 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.



Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 2022** | | | | | | | |
| 1 | **Gostwng Oed Mynediad yn Ysgol Corn Hir** | Deilydd Portffolio Addysg | Dysgu | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Gorffennaf 2022 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Gorffennaf 2022 | |
| 3 | **Cyfrifon Drafft 2021/22 a defnydd o'r balansau ac arian wrth gefn** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Gorffennaf 2022 | |
| **Medi 2022** | | | | | | | |
| 4 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Medi 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>8 Medi 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |
| 7 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>8 Medi 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |
| 8 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>8 Medi 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2025/26** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |
| 10 | **Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol)** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>19 Medi 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | Cyngor Llawn<br><br>29 Medi 2022 |
| 11 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Datblygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Medi 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2022 | |
| | | | | **Hydref 2022** | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22** | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | Cyngor Llawn<br><br>27 Hydref 2022 |
| 14 | **Cynllun y Cyngor 2022-2027** | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Medi 2022 (I'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | Cyngor Llawn<br><br>27 Hydref 2022 |
| | | | | **Tachwedd 2022** | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 16 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>22 Tachwedd 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 18 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 19 | **Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 20 | **Sail y Dreth Gyngor 2023/24**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2023/24. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2022** | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |
| | | | | **Ionawr 2023** | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | |
| | | | | **Chwefror 2023** | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 24 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 26 | **Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 27 | **Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 28 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2023/24** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 28 Mehefin 2022 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4 (2021/22) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** Hwn yw'r pedwerydd a'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyntaf o'r weinyddiaeth bresennol.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod 2022/23

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr TAS ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 20/6. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 4 |

**Ff – Papurau Cefndir** (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

- Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2021/22 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2022 ac a dderbyniwyd ganddo.)
- Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23
- Cynllun y Cyngor 2017-2022

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2021/22)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi anghenion a blaenoriaethau lleol y Cyngor ynghyd a'r amcanion llesiant ar gyfer y cyfnod ar y cyd â'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol 2020-22, ac yn fwy diweddar, y Cynllun Trosiannol.

1.2 Defnyddir yr adroddiad monitro chwarterol hwn fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) y Cyngor, sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS) i sbarduno a diogelu gwelliannau.

1.3 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 3 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2 Ni fu modd cyhoeddi gwybodaeth chwarterol ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol oherwydd natur y dulliau casglu data sydd wedi cael ei effeithio gan y pandemig coronafeirws. Yn y fath achosion, gweler nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch4).

2.3 Ailgychwynnodd y gwaith o gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MAP) yn ystod 2021/22 ar ôl cael eu gohirio yn ystod dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r MAP ar gael ar ddechrau'r flwyddyn i helpu gyda'r broses o osod targedau.

2.4 Cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol ac effaith y pandemig Covid-19.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (92%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro ar draws yr adran wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 8.73 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl. Gwnaed gwelliant sylweddol yn erbyn y targedau yn Ch4.

3.3 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd o fewn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon, ac ar y cyfan, yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn ei darged yw dangosydd 04b - cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) - gyda pherfformiad o 66% yn erbyn targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaethol ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'n galonogol bod 39 allan o'r 41 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod, ac roedd 7 o'r 13 ymateb ysgrifenedig a anfonwyd yn hwyr wedi'u cytuno â'r achwynydd cyn canfod eu bod yn hwyr, fel y nodwyd yn y protocol cwynion.

3.4 Mae gwaith wedi parhau o ran gwella bodlonrwydd y cwsmer.

3.5 Mae'r adran rheoli cyllid yn darogan tanwariant o £4.688m ar hyn o bryd, ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

3.6 Mae blwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn flwyddyn gwahanol ac mae'r Cyngor wedi derbyn llawer iawn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddelio gyda'r pandemig a'r cyfnod adfer. Y cyllid ychwanegol hwn yw'r prif reswm pam bod tanwariant sylweddol yng nghyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn ac mae mwyafrif y Cynghorau eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg.

3.7 Mae'r sefyllfa alldro derfynol wedi caniatáu i'r Cyngor gynyddu balansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a hynny ar ôl caniatáu y defnydd o £3.5m o falansau cyffredinol ar nifer o brosiectau. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn dal i fod yn uwch na'r lefel isaf a argymhellir ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref.

3.8 Mae'r cynnydd cyfredol mewn tâl a phrisiau yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch costau'r Cyngor yn 2022/23 a'r cyllid a fydd ei angen yn 2023/24. Oherwydd bod lefel y balansau a chronfeydd wrth gefn clustnodedig yn uwch nag arfer fe all y Cyngor liniaru'r risgiau ariannol hyn yn 2022/23 ac mewn blynyddoedd dilynol.

3.9 Mae tanwariant ar y Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2021/22 yn £33.457m. Mae £11.242m o'r tanwariant hyn oherwydd llithriad a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei

ddwyn ymlaen i 2022/23. Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £47.203m.

3.10 Mae'r cyfrifon refeniw a chyfalaf yn cael eu ystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid lle mae unrhyw danwariant yn cael ei graffu'n drylwyr cyn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol.

3.11 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch4' a'r 'Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch4' a drafodir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 28ain Mehefin.

3.12 Unwaith eto, mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid. Mae'n galonogol hefyd nodi bod staff yr Awdurdod, yn ystod cyfnod llawn heriau, yn cyflawni yn erbyn eu disgwyliadau, a hynny i safon briodol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd y flwyddyn mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (91%) y dangosyddion perfformiad penodol o fewn yr adranhon yn perfformio'n uwch na'u targed neu o fewn 5% i'w targed. Mae hyn yn welliant ar y perfformiad a welwyd ar ddiwedd 2020/21.

4.2 Fodd bynnag, nodir bod tri dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau, ac fe'u hamlygir yn Goch neu Ambr ar y Cerdyn Sgorio.

4.3 Mae'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn ystod Ch4 yn erbyn **Amcan Llesiant 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir, wedi perfformio'n dda ac yn uwch na'r targed ac yn Wyrdd ar gyfer y cyfnod.

4.4 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.4.1 Dangosydd 10 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff – a chanddo lefel berfformiad o 84% yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn gadarnhaol iawn gan y cafodd y cynllun ei atal y llynedd o ganlyniad i'r pandemig, a dyma'r tro cyntaf i gleientiaid gwblhau'r rhaglen ers ei hailddechrau.

4.4.2 Dangosydd 11 – Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u hadfer i ddefnydd - sydd bellach yn gyfanswm o 91 eiddo sydd wedi'u hadfer i ddefnydd yn erbyn targed blynyddol o 50. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi profi i fod yn fuddiol yma, ac mae'n gadarnhaol bod 91 yn llai o eiddo gwag o fewn ein cymunedau.

4.5 Nid oedd yn bosib casglu gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgolion cynradd ac uwchradd (dangosydd 1 a 2) yn yr un modd ag arfer eleni oherwydd y pandemig Covid. Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu pob math o ffigurau yn ystod y flwyddyn i fesur absenoldebau. O'r ffigurau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfartaledd roedd 86.5% o ddisgyblion

(o ysgolion cynradd ac uwchradd) yn yr ysgol yn ystod wythnos olaf tymor y gaeaf (Ebrill 4ydd -8fed). Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

4.6 Nodwn hefyd nad oes gwybodaeth ar gael ar gyfer y dangosyddion canlynol –

- Dangosydd 4 – Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen – ni chynhaliwyd asesiadau yn ystod 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws;
- Dangosydd 6 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd - cafodd yr asesiadau eu haddasu ar gyfer y flwyddyn i sicrhau bod gwasanaethau'n adrodd ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn hytrach na'r targedau a osodwyd a oedd yn anymarferol oherwydd pandemig y coronafeirws;
- Dangosydd 14 – Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) – mae'r oedi o ran y gwaith gosod meddalwedd wedi effeithio ar ein gallu i weithredu elfen boddhad tenantiaid y feddalwedd yn ystod 2021/22.

4.7 Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl, yn dangos perfformiad da unwaith eto. Dim ond tri ddangosydd (20%) sydd yn Felyn tra bo 11 dangosydd (73%) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.8 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.8.1 Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) yn Wyrdd yn erbyn eu targed, ac wedi gwella yn ystod y chwarter. Ar adeg pan fu'r Gwasanaeth o dan bwysau o ganlyniad i'r pandemig, mae hyn yn galonogol ac yn argoeli'n dda ar gyfer 2022/23.

4.8.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 + 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi dangos perfformiad da hefyd, gyda'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targed ac yn gwella yn ystod y chwarter. Bu defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru'n hanfodol o ran caniatáu i hyn ddigwydd, yn ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau bod ein pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.

4.9 Fodd bynnag, nodir gennym fod un dangosydd wedi dirywio yn erbyn targed am y flwyddyn.

4.9.1 Dangosydd 23 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn – yn AMBR gyda pherfformiad o 318 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Mae'n perfformiad fymryn yn well na'r 321 diwrnod a gofnodwyd ar ddiwedd Ch3, fodd bynnag mae'n waeth na'r 258 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2020/21.

Mae 14 o blant (o gyfanswm o 48 ar y gofrestr) sydd wedi bod ar y gofrestr am fwy na 7 mis. Mae'r achosion hyn yn gymhleth o ran eu natur

ac mae llawer o’r plant hyn yn destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, tra bo’r gweddill yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd Porth Cyfreithiol. O ran pob achos sy’n cyflawni’r meini prawf llym ar gyfer eu tynnu oddi ar y gofrestr, fe gawsant eu tynnu o oddi ar y gofrestr, neu bydd hynny’n digwydd pan fo’n briodol i wneud hynny.

4.10 Roedd ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion **Amcan Llesiant 3**, sef gweithio gyda’n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, hefyd yn dangos cynnydd da yn ystod y flwyddyn. O’r deg dangosydd â thargedau dim ond dau (20%) oedd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

4.11 Mae’r dangosyddion sydd wedi perfformio’n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

4.11.1 Mae tri o’r dangosyddion rheoli gwastraff (dangosydd 31,33 a 34) wedi perfformio’n dda yn erbyn y targedau ystod y flwyddyn. Roedd 95.5% o’r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân ac mae’n galonogol nodi bod achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 0.25 diwrnod. Mae trigolion wedi cynhyrchu llai o wastraff gweddilliol na’r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag maent wedi cynhyrchu ychydig bach mwy o wastraff, 223kg y pen o’i gymharu â 214kg y pen yn 2020/21. Mae’n hanfodol bod trigolion yn cynorthwyo i gynhyrchu llai o wastraff gweddilliol ac ailgylchu mwy os ydym am gyrraedd y targed i ailgylchu 70% o wastraff yr Ynys erbyn 2025.

4.11.2 Roedd y tri dangosydd priffyrdd sy’n ymwneud ag Arolygon cyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac maent yn dangos gwelliant o’i gymharu â 2020/21. Mae’r gwelliant mwyaf i’w weld yng nghyflwr ein ffyrdd A lle mai dim ond 3% oedd mewn cyflwr gwael yn 2021/22 o gymharu â 4.6% yn 2020/21.

4.12 Nodwn bod dau ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi’u hamlygu’n Goch neu’n Ambr ar y Cerdyn Sgorio.

4.12.1 Mae dangosydd 32 - canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio - yn GOCH gyda pherfformiad o 62.39% yn erbyn targed lleol o 70% a targed statudol cenedlaethol o 64% ar gyfer y flwyddyn. Mae’r perfformiad hwn fymryn yn is na’r 62.96% a welwyd ar ddiwedd 2020/21.

Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, nid oedd canlyniad y DPA wedi cael ei ddilysu gan Cadw Gymru’n Daclus ac felly fe all y perfformiad hwn newid ryw fymryn ar ôl i’r gwaith dilysu gael ei gwblhau.

Mae’r perfformiad hwn yn welliant o’r 61.2% a adroddwyd ar ddiwedd Ch3. Fodd bynnag nodir bod y perfformiad hwn bron iawn union yr un fath â’r perfformiad a welwyd yn 2020/21 (62.96%) ac mae’n ostyngiad pellach o’i gymharu â pherfformiad mewn blynyddoedd blaenorol (67.26% yn 2019/20, 69.86% yn 2018/19 a 72.2% yn 2017/18). .

Dros 12 mis yn ôl mynegodd y swyddogion bryderon o ran cyrraedd y targedau dros dro a thymor hwy (70% erbyn 2024/25). Am y rheswm hwn,

cafodd WRAP Cymru eu gwahodd i gynorthwyo'r Cyngor i ddadansoddi ei berfformiad gweithredol a gwneud argymhellion i'w helpu i gyrraedd y targedau gofynnol. Bydd WRAP Cymru'n ymweld â'r Ynys i gynnal asesiadau ymarferol yn ystod Ch1 a Ch2 2022/23. Disgwylir y bydd y canlyniadau ar gael yn ystod Ch3 2022/23.

Bydd cyrraedd y targed statudol cenedlaethol o 70% erbyn 2024/25 yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio penodol.

4.12.2 Dangosydd 36 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sydd yn GOCH gyda 50% yn erbyn targed o 65%

Derbyniwyd tri penderfyniad newydd o ran apeliadau a dderbyniwyd yn ystod chwater olaf y flwyddyn, a chafodd dau o'r tri eu gwrthod. Cynyddodd hyn y canran cyffredinol o 42% i 50% ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â niferoedd bach iawn ac mae'r tanberfformiad o ganlyniad i gadarnhau 5 allan o 10 apêl cynllunio. Dylid nodi nad yw penderfyniadau apêl yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl yn ymwneud â cheisiadau tebyg i geisio canfod unrhyw batrymau sy'n datblygu lle dylem ailedrych ar ein dehongliad o'n polisïau cynllunio lleol.

4.13 Dengys ein lefelau perfformiad o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer yr holl ddangosyddion cyffelyb (cyfanswm o 30) bod 18 (60%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 10 (33%) wedi gostwng a 2 (7%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

4.14 Ar y cyfan mewn blwyddyn anodd arall, mae'n galonogol adrodd bod 77% o'r dangosyddion i fonitro yr Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

5.2 Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.2.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod 2022/23.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Tuedd FI ar FI / Yr on Yr Trend | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) | - | - | N/A | 94.60% | - | - | 94.90% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) | - | - | N/A | 94.40% | | - | 93.90% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.60% | 3% | ↑ | 4.2% | 2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) | - | - | N/A | - | - | - | 87.50% |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | - | 68% | 65% | ↑ | - | 65.01% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd | - | - | N/A | 75% | | - | 75% |
| 7) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | → | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff (Ch3) | Melyn / Yellow | ↑ | 47.5% | 50% | - | - | 75% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff (Ch3) | Gwyrdd / Green | ↓ | 84% | 80% | - | - | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 91 | 50 | ↓ | 94 | 104 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | - | → | 1 | 3 | | 9 | 7 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 13.89 | 18 | ↓ | 8.1 | 16.44 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | - | - | N/A | - | - | - | |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | - | - | N/A | 3 | - | - | 6.88 |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.78% | 90% | ↑ | 92.31% | 91.30% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↓ | 64.85% | 62% | ↑ | 60.36% | 63.08% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 14.33 | 19 | ↑ | 15.36 | 17.57 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.10% | 93% | ↓ | 98.20% | 98.00% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 87.15% | 90% | ↑ | 86.87% | 89.62% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 9.79% | 10% | ↑ | 12.34% | 8.39% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 5.74% | 15% | ↑ | 32.00% | 12.75% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↑ | 318 | 270 | ↓ | 258 | 224 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.10% | 95% | ↓ | 99.56% | 98.88% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↓ | 85.99% | 90% | ↓ | 87.74% | 86.30% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↓ | 80.95% | 70% | ↑ | 74.74% | 74.91% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.00% | 70% | ↑ | 75.47% | 77.70% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | ↑ | 172.3 | 170 | ↓ | 169 | 159.58 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↓ | 28.7 | 40 | ↑ | 45.6 | 21.9 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | → | 1.66% | 2.00% | ↑ | 1.98% | 1.42% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 95.50% | 95% | ↑ | 92.00% | 93.79% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Coch / Red | ↑ | 62.39% | 70% | ↓ | 62.96% | 67.26% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.25 | 1 | ↑ | 0.95 | 0.96 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↑ | 223kg | 240kg | ↓ | 214kg | 206.17kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Melyn / Yellow | ↑ | 79% | 82% | → | 79% | 90% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 50% | 65% | ↓ | 58% | 78% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 84% | 80% | ↑ | 74% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↑ | 3% | 3% | ↑ | 4.60% | 4% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.80% | 4% | ↑ | 3.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.20% | 9% | ↑ | 8.50% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | - | - | 486.85 | - | - | 385 | 527 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | - | - | 1524961 | - | - | 1,254,419 | 1,969,871 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | 786,247 | | | - | - |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | - | - | + 26% | - | - | - | - |

Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn wahanol

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2021/22

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 55 | 67 | 43 | 67 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 9 | - | 6 | - |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 20 | - | 8 | - |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 80% | 80% | 88% | 94% |
| 04b) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 66% | 80% | 75% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 41 | - | 24 | - |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | 189 | - | 104 | 136 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | - | 658 | - | 662 | 618 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | → | 79% | 80% | 79.4% | 82% |
| 09) Boddhad Cwsmeriad i'r wasanaeth ffôn | | | | | - | - |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 51k | - | 33.5k | 15k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 66k | - | 58k | 10.8k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 21k | - | 18.5k | 13k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 11k | - | 7k | 6.5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | → | 92k | - | 42k | 33k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 634k | - | 1.03M | 783k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2202 | - | 2180 | 2181 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.73 | 8.75 | 6.68 | 9.4 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.70 | - | 1.94 | 4.2 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.03 | - | 4.74 | 5.2 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | 10% | - | 6% | 9% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Llinellau Cyllideb Rheoladwy) | Gwyrdd / Green | ↑ | £146,912,000 | £142,126,000 | -3.26% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £147,120,000 | £143,981,000 | -2.13% | - | - |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn (Cyfalaf) | - | ↑ | £40,828,000 | £23,734,000 | -41.87% | - | - |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↓ | -£13,416,783 | -£14,165,344 | 5.58% | - | - |
| 05) Swm a fenthycwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | £7,188,000 | £825,000 | -88.52% | - | - |
| 06) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | ↓ | £4,551,816 | £5,588,252 | 22.77% | - | - |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 98.75% | - | - | - |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 99.41% | - | - | - |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 100.6% | - | - | - |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 101.1% | - | - | - |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 MEHEFIN 2022** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2021/22** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BETHAN HUGHES OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BethanOwen2@ynysmon.llyw.Cymru |
| **Aelodau Lleol** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. Ar 9 Mawrth 2021, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2021/22 gyda gwariant net y gwasanaethau o £147.420m, i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.333m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau eraill na chynlluniwyd ar eu cyfer. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei gostwng gan £0.121m i £1.514m. Defnyddiwyd £0.300m o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod gyda'r cynnydd o 2.75% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

2. Yn wahanol i gyllidebau blynyddoedd blaenorol, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 3.4% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru i'w groesawu. Roedd y setliad ar gyfer 2022/233 yn dangos cynnydd o 9.2% mewn cyllid ac yn darparu arwydd cynnar o'r cyllid tebygol yn ystod blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 4, 31 Mawrth 2022. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ôl cwblhau'r Datganiad Cyfrifon drafft.

4. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cyflwynwyd hawliadau gwerth £6.153m i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r argyfwng Covid, a derbyniwyd £3.854m. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na fydd unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ryddhau i ddigolledu am golledion incwm wrth symud i'r cyfnod newydd yn y pandemig Covid.

5. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yn danwariant o £4.798m. Mae hyn yn 3.25% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2021/22.

6. Argymhellir:-

   **(i)** Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2021/22;
   **(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 y manylir arnynt yn Atodiad C;
   **(iii)** Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
   **(iv)** Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2021/22 yn Atodiadau D a DD;
   **(v)** Nodi balansau ysgolion yn Atodiad E.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac fe'i defnyddir ar y cyd ag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael ei asesu. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2021/22 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Amherthnasol |

| | E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Cyflwynwyd copi o Atodiad B yr adroddiad hwn i'r UDA. |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2022. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

## F – Atodiadau:

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Dros Dro ar gyfer 2021/22
- Atodiad B – Tabl Alldro Dros Dro 2021/22
- Atodiad C – Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2021/22
- Atodiad CH – Adolygiad o brosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22
- Atodiad D – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2021/22
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2021/22
- Atodiad E – Balansau Ysgolion

## Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Cyllideb Refeniw 2021/22 (fel y'i hargymellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2021 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2021).

**ATODIAD A**

**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - ALLDRO**

## 1. Balans Cyffredinol

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £14.079m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £3.974m. Yn dilyn archwilio cyfrifon 2020/21 a chadarnhau'r alldro, roedd y balans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol yn £11.437m.

Mae sefyllfa'r balansau Cyffredinol ar alldro y flwyddyn fel a ganlyn:-

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol Drafft | (11.437) | Cronfa wrth gefn gyffredinol wedi'i harchwilio ar 31 Mawrth 2021 |
| Wynebu ardaloedd chwarae | 0.300 | Cymeradwywyd gan y Cyngor llawn fel rhan o osod Rhaglen Gyfalaf 2021/22, 9 Mawrth 2021 |
| Atgyweirio Harbwr Amlwch | 0.050 | Penderfyniad dirprwyedig gan y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio - Cyllid |
| Trosglwyddiadau i mewn o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig nad oedd eu hangen | (0.719) | Bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiad ar hyn ym mis Gorffennaf 2022 pan ddarperir rhagor o fanylion ynghyd â chais i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yma a ddychwelwyd fel rhai nad oes eu hangen mwyach ar gyfer eu dibenion gwreiddiol. |
| Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau | 1.376 | I greu Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2021 |
| Atgyweirio To Canolfan Addysg y Bont | 1.500 | Gwaith Atgyweirio To yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 29 Gorffennaf 2021 |
| Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd newydd | 0.100 | Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd Newydd – Costau sefydlu |
| Atgyweirio To Canolfan Addysg y Bont | 1.500 | Gwaith Atgyweirio To a gytunwyd gan y Cyngor llawn ar 11 Chwefror 2022 |
| Cynllun llifogydd – cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant | 0.070 | Cymeradwywyd gan y Cyngor llawn fel rhan o osod Rhaglen Gyfalaf 2021/22. 9 Mawrth 2021 |
| Sgriniau amddiffynnol ar gyfer disgyblion wedi eu hadleoli o Ganolfan Addysg y Bont oherwydd problemau'r to | 0.008 | Penderfyniad dirprwyedig gan Ddirprwy Swyddog Adran 151 |
| **Balans Cyffredinol Diwygiedig Cronfa'r Cyngor** | **(7.252)** | |

Ar alldro, mae tanwariant o £4.798m ar gyllidebau y gellir eu rheoli a chyllidebau na ellir eu rheoli ac, oherwydd hyn, mae Cronfa Wrth Gefn gyffredinol y Cyngor wedi codi i £12.050m. Mae penderfyniad wedi'i wneud yn barod i gyllido gwaith adnewyddu priffyrdd gwerth £0.5m o'r gronfa wrth gefn gyffredinol (Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2022) a bydd £0.248m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn gwasanaethau unigol benodol ar gyfer gwasanaethau (yn unol â'r polisi y cytunwyd arno sy'n caniatáu i bob gwasanaeth ddal hyd at 2.5% o'u cyllideb refeniw net neu £75k, pa un bynnag yw'r uchaf, fel cronfa wrth gefn benodol ar gyfer y gwasanaeth). Gedy hyn falans o £11.302m yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Nid yw'r ffigwr hwn wedi cael ei archwilio a gall newid yn sgil addasiadau yn dilyn yr archwiliad. Gosodwyd cyllideb refeniw net o £147.420m ar gyfer 2021/22, ac mae'r balans cyffredinol yn 7.7% o gyllideb refeniw net 2021/22. Y ffigwr targed yw 5% (£7.1m) ac mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r targed.

## 2. Perfformiad Ariannol Fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth wedi'i nodi yn Atodiad B. Tanwariant o £2.671m ar wasanaethau yw'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, cyn archwilio'r cyfrifon. Amcangyfrifir y bydd tanwariant o £0.578m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o £0.160m ar incwm casglu'r Dreth Gyngor safonol a Phremiwm y Dreth Gyngor. Hefyd, derbyniwyd Grant Cymorth Refeniw ychwanegol o £1.389m ym mis Mawrth 2022. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £4.798m ar gyllideb refeniw 2021/22, ac mae hyn yn cyfateb i 3.25% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiannau sylweddol (tua £100k neu fwy):-

**Tabl 1**

| | **(Tan)/Gorwariant £'000** |
|---|---:|
| Dysgu | (255) |
| Oedolion | (283) |
| Gwasanaethau Plant | (370) |
| Tai | (127) |
| Gwastraff | (1,206) |
| Datblygu Economaidd | (157) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (545) |
| Trawsnewid | (388) |
| Adnoddau | (252) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (327) |
| Cyllid Corfforaethol | (840) |
| Costau na ellir eu rheoli ac nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gyllideb – yswiriant, costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg | 487 |
| Cyllido | (389) |
| Arall (cyfanswm amrywiannau llai na £100k) | (146) |
| **Cyfanswm Amrywiannau gor / (tan) wariant** | **(4,798)** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiannau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Ar hyn o bryd, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £7.827m (Atodiad E), o gymharu â £3.974m ar 31 Mawrth 2021. Derbyniwyd grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022 a oedd yn caniatáu ysgolion i hawlio am wariant a gafwyd eisoes yn ystod y flwyddyn. Felly, mae hyn yn golygu fod balansau ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r sefyllfa ym mis Mawrth 2021. Y balans, cyn yr archwiliad, yw £7.827m, o gymharu â £3.974m ar ddiwedd 2020/21, ac nid oes gan unrhyw ysgol ddiffyg ar hyn o bryd.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £148k yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn tanwario a gorwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Roedd tanwariant o £200k (£186k yn chwarter 3) ar ddarparu prydau ysgol. Dyfarnwyd contract newydd ym mis Medi 2021, ac roedd cost cyffredinol y contract newydd yn is na chost y contract blaenorol. Serch hynny, roedd y tanwariant yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis derbyn prydau ysgol am ddim, sy'n arwain at gynnydd yn y gost. Mae'r contract prydau ysgol newydd wedi caniatáu i'r Awdurdod ostwng pris pryd ysgol y telir gan rieni o £2.50 i £2.20.

- Roedd tanwariant o £133k ar leoliadau allsirol (y rhagolwg ar ddiwedd chwarter 3 oedd £545k). Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac mae'r gyllideb yn esblygu ac yn newid gan ddibynnu ar anghenion y disgyblion. Roedd tanwariant cyffredinol yr adain hon yn llawer uwch. Yn dilyn penderfyniad a wnaed wrth osod cyllideb 2022/23 i ailosod y gyllideb i gyd-fynd â chostau presennol, trosglwyddwyd swm sylweddol o'r tanwariant i gronfa wrth gefn, felly, os bydd cynnydd annisgwyl yn y galw yn y dyfodol, bydd cyllid ar gael i gwrdd â'r gost.
- Roedd gorwariant o £54k ar y Clwb Gofal Plant (£58k yn chwarter 3). Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw a, chyda mwy o rieni yn gweithio gartref a rhai cyfyngiadau Covid yn parhau i fod ar waith, mae llai o alw am y ddarpariaeth.
- Roedd gorwariant o £370k ar Gludiant Ysgol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwy o alw am y gwasanaeth hwn ac, er y dyrannwyd cyllideb ychwanegol, mae'r rhagolwg yn parhau i ddangos gorwariant sylweddol. Ychwanegwyd llwybr bws newydd i'r gwasanaeth a bu'n rhaid aildendro rhai contractau, gyda chost y tendrau newydd yn uwch na'r contract gwreiddiol. Yn ogystal, mae 8 contract wedi cael eu dychwelyd i'r Awdurdod gan nad oedd modd eu cyflawni oherwydd costau cynyddol. Bu'n rhaid aildendro'r contractau hynny gan gynyddu costau'r Awdurdod.

**3.1.4 Diwylliant**

**3.1.4.1** Roedd tanwariant o £108k (23.25%) yn y gwasanaeth ar alldro (£49k (4.06%) yn chwarter 3). Roedd £117k o danwariant yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd swyddi gwag. Roedd gorwariant o £7k yn yr Oriel oherwydd bod incwm yn is na'r disgwyl. Roedd gorwariant o £3k yn y gwasanaeth Archifau.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Sefyllfa sylfaenol y Gwasanaeth oedd gorwariant o £1,102k, fodd bynnag, o ganlyniad derbyn grantiau unwaith am byth yn gysylltiedig â gwariant Covid a grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sefyllfa derfynol y Gwasanaeth oedd tanwariant o £283k..

**3.2.2** Mae'r elfennau sy'n gyfrifol am yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: roedd tanwariant o £58k yn y maes Gwasanaeth hwn. Roedd nifer o feysydd yn gor a thanwario, ond roedd y tanwariant mwyaf ar Asesu a Gofal, sef tanwariant o £205k. Swyddi gwag a chyllideb asiantaeth heb ei gwario oedd yn bennaf gyfrifol am hyn. Roedd gorwariant o £50k yn yr Adain Gofal Cartref oherwydd y galw, ond byddai'r gorwariant yn llawer uwch oni bai am y cyllid grant allanol. Roedd gorwariant o £54k yn yr adain Gofal Preswyl hefyd. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac roedd y gorwariant yn is o ganlyniad i ddefnyddio cyllid grant allanol. Roedd gorwariant o £179k yn yr adain Gofal Nyrsio Preifat ar gyfer Pobl Hŷn ac roedd y gorwariant yn is oherwydd cyllid grant allanol. Roedd tanwariant o £123k mewn cyllidebau eraill yn y maes hwn ar ôl dyrannu £96k o grant a dderbyniwyd i gwrdd â chostau gwaith trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS), tuag at y costau â gafwyd.
- Anableddau Corfforol (AC): roedd gorwariant o £200k yn yr adain ar gyfer y flwyddyn, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3. Y prif elfennau yn y maes hwn yw gorwariant o £269k ar ofal preswyl ar ôl derbyn cleientiaid newydd. Roedd swyddi gwag a chyllidebau asiantaeth heb eu gwario yn gostwng cyfanswm y gorwariant i £200k. Roedd gorwariant o £1k ar Gymorth Cartref, a dyrannwyd grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol gwerth £343k i'r adain hon.
- Anableddau Dysgu (AD): roedd gorwariant o £640k ar ddiwedd y flwyddyn, sef £143k yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn y chwarter cynt. Mae'r gorwariant yn is na'r disgwyl o ganlyniad i dderbyn cyllid grant gwerth £152k.
- Iechyd Meddwl (IM): roedd tanwariant o £14k ar ddiwedd y flwyddyn, fel y nodwyd yn y chwarter blaenorol.
- Uned Ddarparu: roedd tanwariant o £813k yn y maes hwn, yn rhannol oherwydd problemau recriwtio yn deillio o'r pandemig Covid (£358k ar swyddi gwag). Mae derbyn cyllid caledi gwerth £243k a grantiau wedi cyfrannu at y tanwariant cyffredinol.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Byddai Gwasanaethau'r Plant wedi gorwario eu cyllideb £511k ond, unwaith eto, canlyniad derbyn cyllid grant ychwanegol o £881k gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau Covid a gwaith adfer yn deillio o Covid, oedd tanwariant o £370k, o'i gymharu â rhagolwg diwedd chwarter 3 o danwariant o £193k**..**

**3.3.2** Roedd y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal yn rhagweld gorwariant o £365k yn chwarter 3. Yr alldro yw gorwariant o £151k ac mae hyn yn wahaniaeth o £214k o un cyfnod adrodd i'r nesaf. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac mae'r gwahaniaeth yn bennaf oherwydd bod lleoliadau ansafonol wedi dod i ben yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, £85k, a symudwyd lleoliadau allsirol i'r sir gwerth £139k o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion.

**3.3.3** Y prif amrywiannau eraill yn y gwasanaeth oedd tanwariant o £255k o dan y pennawd Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol oherwydd costau staffio a llwyddo i gyllido swyddi craidd o gyllid y Gronfa Gofal Canolradd (ICF). Roedd tanwariant o £48k yn y Gwasanaethau Cymorth i Blant oherwydd tanwariant ar staff a chludiant. Mae hyn yn wir hefyd o ran cyllidebau Cymorth Integredig i Deuluoedd a'r Gwasanaethau Ieuenctid, a welodd danwariant o £134k a £77k yn y drefn honno. Serch hynny, roedd gorwariant yn y gyllideb Cymorth i Deuluoedd oherwydd cynnydd mewn costau tacsis i ysgolion uwchradd.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £128k yn y gwasanaeth hwn ar alldro ond cyllideb gytbwys a ragwelwyd yn chwarter 3. Digartrefedd ac atal digartrefedd oedd y meysydd a oedd yn achosi'r pryder mwyaf trwy gydol y flwyddyn. Yn gyffredinol, roedd gorwariant o £23k yn yr adain ddigartrefedd ar ôl hawlio £390k o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru. Roedd meysydd eraill yn y gwasanaeth yn tan a gorwario, gan wrthbwyso ei gilydd, oherwydd gwahaniaethau o ran staffio a thanwariant o £44k yn y gyllideb Cefnogi Pobl.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd tanwariant o £157k (18.09%) yn y gwasanaeth, yn gyffredinol, ond yn chwarter 3 rhagwelwyd gorwariant o £4k (7.33%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.2** Roedd gorwariant o £18k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y targed incwm ar gyfer staffio prosiectau megis Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol £63k yn is na'r gyllideb. Nid oes cyllid allanol ar gael ar gyfer y costau hyn bellach ac, heb y ffynonellau incwm hyn, ni chyflawnwyd y disgwyliadau incwm yn y gyllideb. Arweiniodd ad-drefnu uwch reolwyr at danwariant o £63k a oedd yn gwneud yn iawn am incwm is na'r disgwyl o dan y pennawd cyfleusterau canolfannau. Y meysydd eraill a oedd yn creu pwysau oedd cyllidebau dylunio graffeg a thanysgrifiadau. Ym mis Mawrth 2022, roedd yr Adran yn llwyddiannus yn eu bid am gyllid grant. Dyfarnwyd £1.002m ac, o hyn, defnyddiwyd £106k ar gyfer gwariant a wnaed eisoes a symudwyd £896k i gronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer gwariant i'w wneud yn 2022/23.

**3.5.1.3** Roedd tanwariant o £117k yn yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd mwy o bobl yn cael eu gwyliau yn y DU oherwydd y cyfyngiadau ar deithiau rhyngwladol yn ystod tymor yr haf 2021 ac, o'r herwydd, roedd ein hatyniadau arfordirol yn brysurach nac erioed a chyflawnwyd targedau incwm y swyddogaeth Forwrol ar gyfer cofrestru a lansio badau erbyn diwedd chwarter 1.

**3.5.1.4** Roedd tanwariant o £58k yn yr adain Hamdden ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oes caffis yn y canolfannau erbyn hyn ond mae'r cyllidebau incwm yn dal i fodoli. Casglwyd llai o daliadau debyd uniongyrchol gan y bu'n rhaid cau pyllau nofio. Problem leol oedd hon ac nid oedd modd hawlio arian o'r gronfa galedi. Roedd tanwariant o £41k ar staff y canolfannau hamdden, yn rhannol oherwydd newid yn nhelerau ac amodau hyfforddwyr. Mae'r Cwrs Golff wedi'i werthu yn awr ac, felly, ni fydd rhagor o wariant yn y maes hwn.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £545k yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Ar ddiwedd chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £319k.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £242k yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd. Rhagwelwyd tanwariant o £172k yn chwarter 3. Y prif wahaniaeth o gymharu â'r alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 yw fod swyddi gwag yn parhau i fod yn broblem ac, er y cynhaliwyd ymgyrch recriwtio, nid oedd y swyddi wedi eu llenwi ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd incwm y tîm Cofrestryddion yn uwch na'r proffil yn ystod y flwyddyn a derbyniwyd grant yn ystod y chwarter olaf nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £303k yn yr adain Gynllunio ar alldro a'r rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £147k. Yn yr adain hon, cynnydd mewn incwm ar draws y gwasanaeth oedd y prif wahaniaeth rhwng chwarter 3 a diwedd y flwyddyn. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ynglŷn â ffioedd cynllunio, lle mae'n rhaid cadw 15% o gyfanswm y ffioedd cynllunio i ddatblygu'r gwasanaeth, trosglwyddwyd £101k i'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Roedd swyddi gwag yn yr adain Rheoli Cynllunio, cyfanswm o £41k, ac roedd tanwariant o £26k ar Reoli Adeiladu hefyd gan y gwariwyd llai o'r gyllideb ar gyfer ymgynghorwyr trwy gydol y flwyddyn.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd tanwariant o £55k yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Rhagwelwyd tanwariant o £200k (3.17%) yn chwarter 3. Roedd y mwyafrif o adeiniau yn y gwasanaeth Priffyrdd yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhai mwyaf nodedig yw Cefnogaeth Adrannol £76k, sydd yn deillio o arbedion ar gostau staffio, ac roedd incwm gwaith stryd £140k yn uwch na'r gyllideb incwm. Mae incwm Rheoli Datblygu yn uwch na'r disgwyl felly mae tanwariant o £56k. Mae tanwariant o £36k ar Gludiant Cymunedol Môn. Llai o alw am y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid a'r cyfyngiadau yw'r rheswm am hyn. Mae gorwariant o £352k ar y gyllideb gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ond mae hyn yn deillio o fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio tanwariant a nodwydd mewn gwahanol feysydd yn y Gwasanaeth. Mae'n bwysig tynnu sylw at Reoli Fflyd gan fod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o gerbydau'r Awdurdod ,felly, nid yw'r gwasanaeth yn gallu adennill y gost. Roedd hyn yn dangos gorwariant o £120k yn erbyn y gwasanaeth Priffyrdd, ond, dylid nodi y bydd tanwariant cyfatebol ar gyfer rheoli fflyd yng nghyllidebau'r adrannau eraill.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £1.206k yn y gwasanaeth Gwastraff ar alldro, a'r alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £560k.

**3.6.2.2** Mae'r rhagolwg ar gyfer alldro yn cynnwys meysydd sy'n gorwario a meysydd eraill sy'n tanwario sy'n cydbwyso ei gilydd mewn gwahanol adeiniau o'r gwasanaeth. Mae'r amrywiannau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £375k ar Gasglu Gwastraff, sydd yn cynnwys costau'r contract casglu gwastraff newydd. Mae'r rhagolwg ailgylchu wedi codi o danwariant o £170k yn chwarter 3 i danwariant o £598k ar alldro oherwydd bod incwm gwerthu deunyddiau ailgylchu yn uwch na'r targedau a broffiliwyd a derbyniwyd grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022. Roedd gwastraff gwyrdd yn uwch na'r targedau incwm hefyd. Roedd gorwariant o £118k ar Orsaf Drosglwyddo Penhesgyn ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd costau staffio.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Mae tanwariant o £17k yn y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, a'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 3 oedd gorwariant o £5k (0.51%).

**3.6.3.2** Mae sefyllfa nifer o benawdau yn y gyllideb yn amrywio, gyda rhai yn gorwario ac eraill yn tanwario. Serch hynny, roedd yr amrywiannau mwyaf mewn costau cyfleustodau, lle cafwyd tanwariant o £70k ar ddiwedd y flwyddyn, ac roedd cyflogau wedi eu cyfalafu £51k yn is na'r disgwyl oherwydd oedi gyda Chynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif. Roedd nifer o swyddi gwag yn y Gwasanaethau Glanhau, ac erbyn diwedd y flwyddyn, roedd tanwariant o £38k yn yr adain.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd tanwariant o £388k yn y swyddogaeth Trawsnewid ar alldro.

**3.7.1.1** Roedd tanwariant o £54k (2.86%) yn y swyddogaeth AD. Mae'r tanwariant yn deillio o gyllidebau hyfforddi canolog, oherwydd tarfu ar hyfforddiant wyneb yn wyneb a'r ffaith na chafodd y cynllun Denu Talent ei gynnal eleni.

**3.7.1.2** Roedd tanwariant o £149k yn yr adain TGCh. Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi cael eu canoli ac maent yn cael eu rheoli gan yr adain TGCh, ac roedd gorwariant o £117k. Mae'r gyllideb hon yn gorwario yn hanesyddol. Roedd tanwariant o £148k ar gyflogau yn yr adain TGCh oherwydd nifer o swyddi gwag. Roedd tanwariant o £48k ar gostau ymgynghori hefyd. Roedd cynnydd mewn archebion mewnol gan greu gwarged o £167k. Fodd bynnag, roedd gorwariant ar gost system CRM newydd a £119k ar gostau meddalwedd.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £185k yn yr adain Trawsnewid Corfforaethol o ganlyniad i arbedion ar gostau cyflogau yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Chyswllt Môn, yn ogystal â thanwariant o £99k ar y Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Roedd tanwariant o £252k (2.33%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau ar alldro, a'r rhagolwg ar gyfer alldro yn chwarter 3 oedd tanwariant o £217k (6.71%).

**3.8.2** Swyddi gwag a pheidio â recriwtio ar gyfer secondiadau yw'r prif amrywiad ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau, sydd â thanwariant o £86k. Roedd cyllideb gytbwys yn yr Adain Gyfrifeg tra bod gorwariant yn y tîm Cyflogau oherwydd costau staffio a gwariant ar liniaduron nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Roedd tanwariant o £47k yn Archwilio Mewnol oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn. Mae un swydd wedi'i llenwi ac mae trefniadau recriwtio ar gyfer y swydd arall yn mynd rhagddynt. Roedd tanwariant o £134k yn yr adain Gaffael oherwydd mentrau pwrcasu, h.y. cyllidebau pwrcasu canolog, ad-daliadau ar gardiau caffael a llai o alw am rai mathau o wariant sydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau caffael canolog, oherwydd bod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, deunyddiau ysgrifennu, dodrefn).

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant o £64k yn y swyddogaeth alldro, sydd yn gymharol debyg i'r hyn a nodwyd yn chwarter 3, sef £57k (0.70%).

**3.9.2** Roedd tanwariant o £24k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn wahanol i'r rhagolwg yn chwarter 3, sef gorwariant o £1k. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod incwm pridiannau tir £25k yn uwch na'r targed. Mae amrywiannau yn y gyllideb staffio sy'n cydbwyso'i gilydd, a'r rheswm pennaf am hyn yw staff asiantaeth cyfreithiol a gyflogir i lenwi swyddi gwag neu absenoldebau staff.

**3.9.3** Yn chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £48k yn y Gwasanaethau Democrataidd ond roedd y tanwariant ar alldro yn £40k. Roedd tanwariant yn y Gwasanaeth Pwyllgorau a'r Gwasanaethau Cyfieithu oherwydd arbedion ar dreuliau staff ac ymgynghorwyr. Fodd bynnag, roedd gorwariant o £16k yn y Gwasanaeth Etholiadau. Roedd hyn oherwydd gwariant yn ymwneud ag etholiadau'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2022, yn cynnwys yr angen am staff cymorth ychwanegol.

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant o £327k yn y swyddogaeth ar alldro, ond y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £164k (5.45%).

**3.10.2** Mae gan Cefnogaeth i Aelodau a Threuliau Aelodau danwariant cyfun o £12k. Y rheswm am hyn yw cyfyngiadau'r pandemig sydd wedi creu tanwariant sylweddol yn y cyllidebau teithio, hyfforddi a chynadleddau.

**3.10.3** Roedd tanwariant o £313k ar gyllidebau corfforaethol. Roedd tanwariant o £83k ar ffioedd archwilio grantiau a £54k ar daliadau pensiwn hanesyddol i'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, roedd gorwariant o £25k ar Gwnsela Staff ac nid oes cyllideb ar gyfer y gwariant hwn. Roedd cyfraniadau pensiwn eilaidd £32k yn uwch na'r gyllideb. Mae gan yr adain nifer o benawdau eraill sy'n gor a thanwario ac yn cydbwyso ei gilydd.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd gan y swyddogaeth danwariant o £10k ar alldro. Mae hyn yn llai o danwariant nag a ragwelwyd yn chwarter 3, sef £27k (4.25%). Y rheswm am y newid rhwng y rhagolwg a'r alldro terfynol yw bod swyddogion wedi derbyn ôl-dal yn dyddio'n ôl i fis Ebrill 2021 ym mis Chwefror ar ôl cytuno ar y setliad cyflog ac roedd y setliad cyflog yn uwch na'r dyfarniad cyflog a gynhwyswyd yn y gyllideb. Cafwyd gwariant hefyd ar yr ymarferion recriwtio a gynhaliwyd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. Yn gyffredinol, mae'r tanwariant yn ymwneud ag ailstrwythuro rheolwyr yn 2019/20 a mân danwariant ar gludiant a chyflenwadau swyddfa cyffredinol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd tanwariant gyffredinol o £840k ar Gyllid Corfforaethol, yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd. Wrth osod y gyllideb, neilltuwyd £300k o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ond, serch hynny, nid oedd angen ei ddefnyddio.

**4.2** Roedd gorwariant o £147k ar y gyllideb Budd-daliadau a Roddwyd oherwydd cynnydd yn nifer yr hawlwyr a chollwyd cymhorthdal budd-daliadau tai ar ôl cwblhau archwiliadau blynyddoedd blaenorol. Roedd gorwariant o £31k ar y gyllideb rhyddhad dewisol trethi busnes a'r dreth gyngor oherwydd bod lefel y rhyddhad dewisol a roddwyd yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd.

**4.3** Roedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, a chyfanswm y cyllidebau hyn oedd £1,333k. Trosglwyddwyd y mwyafrif o'r cyllidebau hyn i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, gan adael £567k heb ei ddyrannu. Ceir crynodeb o'r gyllideb wrth gefn yn Atodiad C, ac mae'n dangos bod £783k wedi'i drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.4** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys 3 elfen: y swm a neilltuir ar gyfer ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - MRP), llog i'w dalu ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Roedd y ffaith bod prosiectau cyfalaf wedi'u gohirio, yn enwedig y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu bod gostyngiad yng ngofynion benthyca'r Cyngor sydd, yn ei dro, wedi arwain at gostau llog ac MRP is. Yn ystod y pandemig, cadwodd y Cyngor falans arian parod uwch na'r arfer, er bod enillion buddsoddi yn isel iawn (llai na 0.2% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn). O ganlyniad, roedd tanwariant o £750k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

**4.5** Fel rhan o'r broses cau lawr, fe addasir y sefyllfa alldro derfynol i adlewyrchu costau na chyllidwyd ar eu cyfer, darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac addasiadau i gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Daw cyfanswm yr addasiadau yma i £488k (dangosir fel Eithriadau Amrywiadau nad oedd modd ei reoli yn Atodiad B). Ar ôl cymryd yr addasiadau yma i ystyriaeth, y sefyllfa alldro derfynol yw tanwariant net o £3,138k a gormodedd o gyllid o £1,549k (Grant Cymorth Refeniw ychwanegol ac amrywiant ar gyllid Dreth Gyngor (gweler paragraff 5 isod)).

**5. Casglu'r Dreth Gyngor**

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r amcangyfrif o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, ar sail ffigwr sylfaen y dreth a osodwyd ym mis Tachwedd 2020. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddiadau i drethi busnes ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Gasglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae lefel dyledion wedi cynyddu oherwydd y pandemig, gan olygu bod angen cynnydd uwch na'r arfer yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg, er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol sydd wedi caniatáu i'r Cyngor gyllido'r gost ychwanegol heb effeithio ar falansau'r Cyngor. Mae newidiadau i eithriadau, a pharhau i drosglwyddo eiddo hunanarlwyo i'r gofrestr Trethi Busnes, wedi creu diffyg cyffredinol o £308k yn nebyd y Dreth Gyngor safonol o gymharu â'r gyllideb wreiddiol.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gall nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodir sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes wedi gostwng y premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi ond, er i eiddo gael eu trosglwyddo, yn gyffredinol roedd niferoedd ail gartrefi yn weddol gyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £468k yn y gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. Arbedion Cyllidebol 2021/22**

**6.1** Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw Arbedion Cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**7. Buddsoddi i Arbed**

**7.1** Cyflwynwyd rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £899k wedi ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2021/22. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i wahanol raddau, gyda rhai yn nes at eu cwblhau nac eraill, er bod y pandemig Covid wedi effeithio ar y gallu i gwblhau'r prosiectau hyn. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau yn Atodiad CH.

**8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr**

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £1,296k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio gan eu bod yn gysylltiedig â swyddi gwag, ac roedd £623k yn gysylltiedig â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gwag. Gwariodd y gwasanaeth Gwastraff £366k ar weithwyr safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad D.

**8.2** Gwariwyd cyfanswm o £894k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod Ionawr i Fawrth 2022, gyda £516k yn cael ei gyllido o grantiau neu ffynonellau allanol. Roedd gwariant o fewn Economaidd ac Adfywio wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y chwarter olaf. Y rheswm am hyn yw fod anfonebau am waith a wnaed drwy gydol y flwyddyn heb eu derbyn tan chwarter olaf y flwyddyn. Mae crynodeb llawn o wariant fesul gwasanaeth, a manylion ychwanegol am y gwariant, i'w gweld yn Atodiad DD.

**9 Arian Grant Covid19 Llywodraeth Cymru hyd yma**

**9.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws a cholledion incwm, ac oni bai am y cyllid ychwanegol hwn byddai'r gyllideb yn gorwario ar alldro. Mae Tabl 2 isod yn dangos bod y Cyngor wedi hawlio £5.736m ar gyfer costau ychwanegol yn codi o'r pandemig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae £3.854m wedi'i dalu'n barod i'r Cyngor, gan adael balans o £1.882m yn weddill, fydd yn cael ei dalu yn ystod 2022/23.

**Tabl 2 Gwariant cysylltiedig â Covid rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion £ | Prydau Ysgol am Ddim £ | Cyffrediol £ | Digartrefedd £ | Glanhau Ysgolion £ | Profi mewn Cartref Gofal £ | Hunan Ynysu £ | Plant £ | Tanwydd y Gaeaf £ | Ychwanegol SSP £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRYNODEB** | | | | | | | | | | | |
| **Hawliwyd** | **1,496,142** | **478,989** | **1,262,164** | **390,278** | **219,631** | **147,163** | **870,663** | **140,810** | **650,326** | **81,437** | **5,737,603** |
| **Gwrthodwyd** | **-** | **-** | **917** | **65** | **-** | **-** | **-** | **-** | **479** | **-** | **1,461** |
| **Balans Dyledus** | **1,496,142** | **478,989** | **1,261,247** | **390,213** | **219,631** | **147,163** | **870,663** | **140,810** | **649,847** | **81,437** | **5,736,142** |
| **Talwyd** | **1,257,020** | **439,946** | **877,775** | **156,833** | **162,567** | **147,163** | **418,972** | **140,810** | **212,005** | **40,620** | **3,853,711** |
| **Balans yn Weddill** | **239,122** | **39,044** | **383,473** | **233,380** | **57,064** | **0** | **451,691** | **-** | **437,842** | **40,816** | **1,882,431** |

**9.2 Colledion Incwm oherwydd Cyfyngiadau Covid a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am incwm cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'r Cyngor wedi hawlio £0.417m gan Lywodraeth Cymru, ac mae £0.127 yn weddill i'w dalu gan Lywodraeth Cymru. Mae crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 31 Mawrth 2022 i'w weld isod yn Nhabl 3:-

**Tabl 3 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Colledion Incwm gan Wasanaethau yn ystod y Pandemig**

| Crynodeb | Amgueddfeydd £'000 | Hamdden a Chwaraeon £'000 | Glanhau Ysgolion £'000 | Meysydd Parcio £'000 | Rheoli Pla £'000 | Marchnadoedd £'000 | Iechyd yr Amgylchedd £'000 | Clybiau Gofal Ysgolion £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliwyd | 118.09 | 559.37 | 321.40 | 34.00 | 13.60 | 1.80 | 2.40 | 9.00 | 416.86 |
| Heb ei ganiatau | - | - | - | - | | - | - | - | - |
| **Balans Dyledus** | **118.09** | **559.37** | **321.40** | **34.00** | **13.60** | **1.80** | **2.40** | **9.00** | **416.86** |
| Talwyd | 65.00 | 487.51 | 421.40 | 34.00 | 11.40 | 1.80 | 2.40 | 9.00 | 289.71 |
| **Balans yn Weddill** | **53.09** | **71.86** | **-** | | **2.20** | **-** | | **-** | **127.15** |

## 10. Casgliad

**10.1** Mae blwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn flwyddyn eithriadol a derbyniodd y Cyngor swm sylweddol o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ymdopi â'r gost barhaus o ddelio gyda'r pandemig ac adfer yn dilyn y pandemig. Y cyllid ychwanegol hwn yw'r prif reswm pam fod cyfrifon y Cyngor yn dangos tanwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn, ac mae'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r alldro terfynol wedi caniatáu i'r Cyngor gynyddu ei falansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig, ar ôl caniatáu ar gyfer y defnydd o £3.5m o falensau cyffredinol ar nifer o brosiectau. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn parhau i fod yn uwch na'r isafswm a argymhellir ac mae hyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol cadarn.

Mae'r cynnydd presennol mewn cyflogau a phrisiau yn creu ansicrwydd mawr ynglŷn â chostau'r Cyngor yn 2022/23 a lefel y gyllideb fydd ei hangen yn 2023/4. Bydd y balansau a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig uwch nac arfer yn caniatáu i'r Cyngor liniaru'r risgiau ariannol hynny yn 2022/23 a'r blynyddoedd i ddilyn.

**ATODIAD B**

**Rhagamcan o Alldro Refeniw ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function** | **2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **Alldro Amodol/ Provisional Outturn** | **Cyfanswm Alldro Amodol – Amrywiad / Provisional Total Outturn Variance** | **Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) / Provisional Uncontrollable Variance (Exceptions)** | **Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (dim eithriadau) / Provisional Controllable Variance (Non-Exceptions)** | **Gor(tan) Wariant Amodol fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget** | **Gwahaniaeth i Ch3 elfennau yr oedd modd eu rholi gan y Gwasanaeth / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** |
| **Dysgu Gydol Oes** ***Lifelong Learning*** | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 49,123 | 49,123 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 4,476 | 4,328 | (148) | 2 | (150) | -3.3% | (299) |
| Diwylliant *Culture* | 1,217 | 1,109 | (108) | (3) | (105) | -8.85% | (49) |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 27,736 | 27,599 | (137) | 147 | (283) | -0.49% | (231) |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 11,196 | 10,832 | (365) | 5 | (370) | -3.26% | (193) |
| | | | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,244 | 1,117 | (127) | 0 | (127) | -10.3% | 0 |
| | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** ***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 6,349 | 6,302 | (47) | 8 | (55) | -0.75% | (200) |
| Eiddo *Property* | 1,004 | 994 | (10) | 6 | (17) | -1.02% | 5 |
| Gwastraff *Waste* | 8,726 | 7,521 | (1,205) | 0 | (1,205) | -13.81% | (560) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function | 2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | Alldro Amodol/ Provisional Outturn | Cyfanswm Alldro Amodol – Amrywiad / Provisional Total Outturn Variance | Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) / Provisional Uncontrollable Variance (Exceptions) | Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (dim eithriadau) / Provisional Controllable Variance (Non-Exceptions) | Gor(tan) Wariant Amodol fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget | Gwahaniaeth i Ch3 elfennau yr oedd modd eu rholi gan y Gwasanaeth / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 |
| **<u>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u>**<br>***<u>Regulation & Economic Development</u>*** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 2,036 | 1,883 | (153) | 4 | (157) | -7.52% | 4 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 2,316 | 1,771 | (545) | 0 | (545) | -23.55% | (319) |
| | | | | | | | |
| **<u>Trawsnewid</u>**<br>***<u>Transformation</u>*** | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,598 | 1,544 | (53) | 0 | (54) | -3.35% | (91) |
| TGCh<br>*ICT* | 3,300 | 3,151 | (149) | 0 | (149) | -4.52% | 18 |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 973 | 788 | (185) | 0 | (185) | -19.03% | (135) |
| | | | | | | | |
| **<u>Adnoddau</u>**<br>***<u>Resources</u>*** | 3,243 | 3,019 | (224) | 28 | (252) | -6.91% | (217) |
| | | | | | | | |
| **<u>Busnes y Cyngor</u>**<br>***<u>Council Business</u>*** | 1,659 | 1,595 | (64) | 0 | (64) | -3.84% | (57) |
| | | | | | | | |
| **<u>Costau Corfforaethol a Democrataidd</u>**<br>***<u>Corporate & Democratic costs</u>*** | 2,997 | 3,858 | 861 | 1,189 | (327) | 28.74% | (164) |
| | | | | | | | |
| **<u>Rheolaeth Corfforaethol</u>**<br>***<u>Corporate Management</u>*** | 686 | 676 | (10) | 0 | (10) | -1.46% | (27) |
| | | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function | 2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | Alldro Amodol/ Provisional Outturn | Cyfanswm Alldro Amodol – Amrywiad / Provisional Total Outturn Variance | Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) / Provisional Uncontrollable Variance (Exceptions) | Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (dim eithriadau) / Provisional Controllable Variance (Non-Exceptions) | Gor(tan) Wariant Amodol fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget | Gwahaniaeth i Ch3 elfennau yr oedd modd eu rholi gan y Gwasanaeth / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau Total Service Budgets** | 129,879 | 127,209 | (2,670) | 1,386 | (4,055) | 2% | (2,515) |
| Ardollau *Levies* | 3,695 | 3,693 | (2) | 0 | (2) | -0.05% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 71 | 102 | 31 | 0 | 31 | 43.42% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 7,618 | 7,227 | (390) | 359 | (750) | -5.12% | (536) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 567 | 0 | (567) | 0 | (567) | -100.00% | (393) |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (700) | (797) | (97) | (97) | 0 | 13.93% | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 6,290 | 6,435 | 145 | 0 | 145 | 2.31% | 38 |
| Arian Wrth gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General Reserves | (300) | 0 | 300 | 0 | 300 | -100.00% | 300 |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol *Total Corporate Finance*** | 17,241 | 16,662 | (578) | 262 | (840) | -3.34% | (591) |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2021/22 *Total 2021/22*** | **147,120** | **143,872** | **(3,248)** | **1,648** | **(4,895)** | **-2.2%** | **(3,106)** |
| **Cyllido / Funding** | | | | | | | |
| **Trethi Annomestig / NDR** | **(23,480)** | **(23,480)** | **0** | **0** | **0** | **0.00%** | **0** |
| **Y Dreth Gyngor / Council Tax** | **(40,902)** | **(40,594)** | **308** | **0** | **308** | **-0.75%** | **(113)** |
| **Premiwm y Dreth Gyngor / Council Tax Premium** | **(1,393)** | **(1,861)** | **(468)** | **229** | **(697)** | **33.64%** | **(509)** |
| **Grantiau Cynnal Refeniw / Revenue Support Grants** | **(81,345)** | **(82,734)** | **(1,389)** | **(1,389)** | **0** | **1.71%** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllido / Total Funding** | **(147,120)** | **(148,669)** | **(1,549)** | **(1,160)** | **(389)** | **-0.01%** | **(623)** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm alldro gan gynnwys effaith ar gyllid / Total outturn including impact of funding** | **0** | **(4,798)** | **(4,798)** | **487** | **(5,284)** | **-3.25%** | **(3,729)** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro Cyllidebau Wrth Gefn 2021/22**

| | **Cyllideb** £ | **Trosglwyddiadau** £ | **Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma** £ | **Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma 7** £ |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol | 388,928 | - 95,015 | 293,913 | 293,913 |
| Cyflog a Graddfeydd | 150,000 | -100,080 | 49,920 | 49,920 |
| Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 794,500 | -571,670 | 222,830 | 222,830 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn ac Eraill** | **1,333,428** | **-204,320** | **1,129,108** | **549,628** |

ATODIAD CH

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad am 2021/22 £ | Gwariwyd 2021/22 £ | Y Gyllideb sy'n Weddill 2021/22 £ | Y Diweddaraf am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Darparu datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 0 | 0 | 0 | Daeth y prosiect i ben. Dim diweddariad pellach. |
| T.G. | Tir ac Eiddo Lleol Gazetteer (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 0 | 0 | 0 | Daeth y prosiect i ben. Dim diweddariad pellach. |
| T.G. / Trawsnewid | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 46,676 | 0 | 46,676 | Daeth y prosiect i ben. Dim diweddariad pellach. |
| T.G./ Adnoddau | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn galluogi i daliadau gael eu derbyn drwy'r Ap | 27,000 | 13,583 | 0 | 13,583 | Daeth y prosiect i ben. Dim diweddariad pellach. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella Gwydnwch y Systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomataidd newydd | 118,000 | 5,687 | 6,337 | (650) | Tra mae'r datblygwr wedi datrys y materion sy'n ymwneud â'r fersiwn Gymraeg ar y porth cyhoeddus a pherfformiad araf y system, rydym yn parhau i ddisgwyl am ddatrysiad o'r materion adolygu dogfennau. Nid ydym wedi cytuno ar ddyddiad 'mynd yn fyw' eto oherwydd y materion parhaus yma. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad am 2021/22 £ | Gwariwyd 2021/22 £ | Y Gyllideb sy'n Weddill 2021/22 £ | Y Diweddaraf am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwella System Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu â'r ffrydiau incwm presennol ac sy'n caniatáu i ddulliau casglu incwm newydd (AppMôn ac ati) gysylltu â'r system rheoli arian parod | 150,000 | 36,843 | 8,463 | 28,381 | Mae'r gyllideb bellach wedi ei hymrwymo'n llawn ac o fewn cyllidebau'r bid. Ailddechreuodd y gwaith gweithredu yn ystod Chwarter 2 2020/21 yn dilyn diwedd cyfnod ffyrlo rhai swyddogion prosiect Capita, ond dim ond yn Chwarter 3 2020/21 y cododd momentwm. Mae gwaith profi'r ffeil allforio GL newydd y gellid ei wneud o bell bron wedi'i gwblhau ac mae trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith profi na ellir ei wneud o bell. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gellir dechrau gweithredu cysoni incwm/e-ddychweliadau awtomatig, sy'n cynnwys prosesau newydd ar gyfer gwasanaethau a datganiadau banc electronig pwrpasol gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomeiddio pellach yn symud ymlaen drwy ddatblygu "APIs" i alluogi diweddariad incwm awtomatig i'r lejer drwy'r system rheoli incwm ar gyfer gwasanaethau mewnol, megis hamdden, addysg a phriffyrdd, ac allanol ar gyfer AGP. Bydd y gwaith gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bod Covid wedi gohirio gweithredu a gwasanaethau mewnol yn ail-dendro rhai prosesau meddalwedd penodol. Bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad – Addysg | Gweithredu modiwlau nas defnyddiwyd yn y system Gwybodaeth Reoli UN | 67,000 | 0 | 0 | 0 | Daeth y prosiect i ben. Dim diweddariad pellach. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad – Oriel Môn | Gwefan i'r Oriel | 20,000 | 11,474 | 16,193 | -4,719 | Gwaith wedi ei orffen ar y prosiect yma. |
| T.G . / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Ddiofyn | Cyflogi Swyddog Arweiniol Digidol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 30,280 | 75,338 | -45,058 | Daeth y prosiect i ben. Dim diweddariad pellach. (Gorwariant yma i'w gyllido o danwariant ar y prosiect CRM) |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad am 2021/22 £ | Gwariwyd 2021/22 £ | Y Gyllideb sy’n Weddill 2021/22 £ | Y Diweddaraf am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. | Gweithredu system sy'n seiliedig ar gwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r meddalwedd yn ateb i Gymru gyfan ac mae wedi'i brynu drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 cyngor yng Nghymru. | £10,000 y flwyddyn am 4.5 blwyddyn | 45,000 | 0 | 45,000 | Nid yw'r prosiect yma’n parhau fel prosiect sengl. Yn hytrach, mae’n cael ei weithredu fel rhan o brosiect ehangach o weithredu’r awdurdod iechyd porthladd newydd. Trosglwyddwyd y cyllid oedd wedi ei ddyrannu i’r prosiect yma yn ôl i falensau cyffredinol y Cyngor. |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **982,800** | **189,543** | **106,331** | **83,212** | |

**ATODIAD D**

**Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mawrth 2022**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas defnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Rheswm dros Gyflenwi |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 17,966 | Grant | Dros Dro | Methu recriwtio Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig ar gyfer samplo bwyd |
| | 66,154 | Grant | Dros Dro | Capasiti |
| | 7,110 | Grant | Dros Dro | Darparu cymorth a hyfforddiant i Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sy'n delio â thystysgrif iechyd allforio |
| | **91,229** | | | |
| Ysgolion | 18,260 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | 113 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw am dasg bennodol |
| | **18,373** | | | |
| Gwastraff | 10,998 | Incwm Tanysgrifiadau Gwastraff Gwyrdd | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr |
| | 347,953 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr |
| | 6,924 | Hawliwyd o'r Gronfa Caledi | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr |
| | **365,874** | | Dros Dro | |
| Eiddo | 2,379 | Cyllideb Staffio nas Defnyddiwyd | Dros Dro | Prisio ar gyfer cyfrifon 2020/21 |
| | **2,379** | | Dros Dro | |
| Gwasanaethau Plant | 323,812 | Cronfa'r Craidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **323,812** | | Dros Dro | |
| Gwasanaethau Oedolion | 47,449 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Prosiect DOLS |
| | 120,845 | Grant | Dros Dro | Gyflenwi gwaith ychwanegol am Covid a swyddi gwag |
| | 52,440 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swydd wag |
| | **220,734** | | Dros Dro | |
| Adnoddau | 52,358 | Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Secondiad Staff |
| | 183,732 | Grant | Dros Dro | Ôl-groniad gwaith Dreth Gyngor oherwydd y pandemig |
| | **236,090** | | Dros Dro | |
| Trawsnewid | 11,339 | Cyllideb Staffio nas Defnyddiwyd | Dros Dro | Mamolaeth |
| | 19,236 | Cyllideb Staffio nas Defnyddiwyd | Dros Dro | Secondiad staff i gefnogi Prosiect HWB |
| | 6,456 | Cyllideb Staffio nas Defnyddiwyd | Dros Dro | Swydd wag Technegydd GIS<br>- angen i gynnal Safon Ansawdd Data |
| | **37,032** | | | |
| **Cyfanswm** | **1,295,522** | | | |

**ATODIAD DD**

## Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr 2021/22

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch1<br>£** | **Ch2<br>£** | **Ch3<br>£** | **Ch 4<br>£** | **Cyfanswm 2021/22<br>£** |
| Addysg Canolog | 0 | 2,746 | 1,616 | 14,987 | **19,349** |
| Diwylliant | 58,100 | 6,365 | 2,110 | 1,270 | **67,845** |
| Economaidd ac Adfywio | 36,124 | 37,440 | 49,963 | 391,728 | **515,255** |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 16,000 | 4,200 | 44,060 | 405,411 | **469,671** |
| Ysgolion | 3,135 | 1,050 | 250 | 824 | **5,259** |
| Gwastraff | 12,137 | 8,679 | 10,659 | 17,748 | **49,223** |
| CRT | -10,250 | 1,034 | 1,964 | 0 | **-7,252** |
| Tai | 0 | 0 | 1,700 | 1,750 | **3,450** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,451 | 0 | 350 | 0 | **3,801** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 0 | 2,040 | 18,581 | **20,621** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 850 | **850** |
| Trawsnewid | 4,260 | 2,640 | 13,601 | 8,331 | **28,832** |
| Busnes y Cyngor | 0 | 7,130 | 17,029 | 12,172 | **36,331** |
| Adnoddau | 9,565 | 9,025 | 14,750 | 20,170 | **53,510** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **132,521** | **80,309** | **160,092** | **893,824** | **1,266,746** |
| Cyllidwyd gan: | | | | | |
| Cyllideb Craidd | 65,648 | 58,234 | 147,582.12 | 377,688 | **649,153** |
| Grant | 65,495 | 15,548 | 7,940 | 228,542 | **317,525** |
| Cyfraniad Allanol | 1,379 | 6,526 | 4,570 | 287,593 | **300,068** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | | | | **0** |
| **Cyfanswm** | **132,521** | **80,309** | **160,092** | **893,824** | **1,266,746** |

**Balansau Ysgolion**

| | Balans<br>01/04/2020<br>£'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) am 2020/21<br>£'000 | Balans<br>31/03/2021<br>£'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) am 2021/22<br>£'000 | Balans<br>31/03/2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol | 842 | 1,933 | 2,775 | 1,767 | 4,542 |
| Ysgolion Uwchradd Cymunedol | (693) | 1,670 | 977 | 1,812 | 2,789 |
| Ysgol Arbennig Gymunedol | (84) | 24 | (60) | 158 | 98 |
| Ysgol Gynradd Sefydledig | 132 | 150 | 282 | 116 | 398 |
| **Cyfanswm** | **197** | **3,777** | **3,974** | **3,853** | **7,827** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 MEHEFIN 2022** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2021/22** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:**

- Nodi sefyllfa alldro drafft y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 sy'n destun Archwiliad; a
- Cymeradwyo dwyn ymlaen £11.242m i 2022/23 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriant. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £47.203m.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n destun Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | Ystyriwyd yr adroddiad gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2022 ac ymgorfforwyd y sylwadau ar yr adroddiad drafft yn yr adroddiad terfynol |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151**(gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro wedi'u cynnwys yn sylwadau'r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Gyfalaf |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Ganolradd, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2021/22 yn destun proses ymgynghori gyda dinasyddion Ynys Môn |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2021/22
Atodiad B – Crynodeb o Wariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a llithriad i 2022/23

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2021/22, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Chwarter 1, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2021
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2021
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Chwarter 3, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 3 Mawrth 2022

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ac mae'n caniatáu i aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn destun Archwiliad.

**1.2** Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £15.842m ar gyfer 2021/22, a Rhaglen Gyfalaf o £20.313m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriant cyfalaf o £11.898m gael ei ddwyn ymlaen o 2020/21, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.492m, a £22.561m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, gwerth cyfanswm o £15.445m, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i £63.498m.

## 2. GWARIANT CYFALAF 2021/22

**2.1** Isod mae Tabl yn crynhoi'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2022:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gor Wariant £'000 | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol - Tai | 1,631 | 1,019 | (612) | 62 |
| Tai - CRT | 22,561 | 9,723 | (12,838) | 43 |
| Dysgu Gydol Oes | 15,683 | 8,833 | (6,850) | 56 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,144 | 2,081 | (4,063) | 34 |
| Priffyrdd | 8,993 | 5,290 | (3,703) | 59 |
| Rheoli Gwastraff | 2,276 | 2,270 | (6) | 100 |
| Eiddo | 2,800 | 2,140 | (660) | 76 |
| Trawsnewid | 1,066 | 794 | (272) | 74 |
| Cynllunio | 1,215 | 384 | (831) | 32 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,129 | 923 | (206) | 82 |
| **Cyfanswm** | **63,498** | **33,457** | **(30,041)** | **53** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 27,453 | 22,486 | (4,967) | 82 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 583 | 312 | (271) | 54 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 8,765 | 1,764 | (7,001) | 20 |
| Benthyca Digefnogaeth | 4,897 | 2,485 | (2,412) | 51 |
| Cyfraniad Refeniw | 17,887 | 4,484 | (13,403) | 25 |
| Benthyciad | 608 | 531 | (77) | 87 |
| Cronfa wrth Gefn Cyfalaf | 3,305 | 1,395 | (1,910) | 42 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **63,498** | **33,457** | **(30,041)** | **53** |

**2.2** Y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol oedd £40.937m gyda gwariant o £23.734m ar 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn cyfateb i 58% o'r gyllideb. Mae rhesymau am y tanwariant yn cynnwys:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgolion | 1.847 | Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £1.236m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2021/22, yn lle defnyddio adnoddau yr Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23. |
| Prydau Ysgol am Ddim | 0.547 | Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £0.588m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2021/22, yn lle defnyddio adnoddau ariannol yr Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23. |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 2.864 | Mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr ar y cynllun Band A olaf ac mae gwaith ar y safle'n dod yn ei flaen yn dda. Ail-wahoddwyd tendrau ar gyfer yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig. Derbyniwyd matrics cyllido wedi'i ddiweddaru a bydd cyllidebau 2022/23 yn adlewyrchu hyn. |
| To Canolfan Addysg y Bont | 0.991 | Mae oedi wrth benodi contractwr i ddechrau gwaith ar y to cyn diwedd y flwyddyn yn golygu y bydd y gwaith yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. Rhagwelwyd hyn yn yr adroddiad chwarter 3. |
| Porth Twristiaeth | 1.340 | Cafodd gwaith yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd ei ail-dendro yn llwyddiannus gan ddefnyddio fframwaith rhanbarthol ac mae contractwr wedi'i benodi erbyn hyn. Mae gwaith uwchraddio ar y toiledau a'r ciosg wedi'i gomisiynu yn awr hefyd. Mae hwn yn gynllun parhaus ac mae dyraniad cyllideb newydd ar ei gyfer yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23. |
| Cynlluniau llifogydd amrywiol | 2.262 | Mae rhai cynlluniau yn rhai parhaus ac yn pontio gwahanol flynyddoedd ariannol. Gwelwyd oedi gyda chynlluniau eraill a chytunwyd ar estyniad amser er mwyn eu cwblhau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn dwyn y cyllid ymlaen. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – gwelliannau isadeiledd | 0.673 | Oherwydd natur y gwaith a'r amser arweiniol ar gyfer darparu isadeiledd, sicrhawyd estyniad amser hyd at fis Gorffennaf 2022. |
| Adfywio Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflyn) | 0.673 | Oherwydd oedi amrywiol drwy gydol y flwyddyn ni ddatblygodd y gwaith ar y cyflymder a fwriadwyd yn wreiddiol, gan arwain at yr amrywiant mawr yn y gyllideb. Mae dyraniad newydd yn y gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| Penrhos Cam 2 | 1.130 | Mae gwaith ar y safle'n mynd rhagddo a bydd y cynllun yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Unedau Porth Llangefni | 0.872 | Mae gwaith ar y safle'n mynd rhagddo a bydd y cynllun yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter 1. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.491 | Roedd y prisiau tendr gwreiddiol a dderbyniwyd yn uwch na'r cyllid oedd ar gael. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailgynllunio'r cynllun i leihau costau er mwyn iddo gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael. |
| Prosiectau TG | 0.281 | Tanwariant bwriadol oherwydd yr angen i newid y brif system storio *flash* yn 2022/23. |
| Gwaith cyfalaf i asedau presennol | 0.369 | Cafwyd oedi ar brosiectau Plas Arthur oherwydd bod Canolfan Addysg y Bont yn defnyddio'r safle. |
| Gwelliannau Hamdden | 0.189 | Mae prosiectau ar y gweill a chynlluniwyd i'r gwaith barhau yn 2022/23, ym Mhlas Arthur yn benodol. |
| Cerbydau | 0.274 | Mae cynllun yn cael ei ddatblygu i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan yn y compownd, ond nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto a, hyd nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau, ni fydd cerbydau trydan yn cael eu harchebu. Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn ond, oherwydd bod rhaid disgwyl iddynt gael eu cael eu cyflenwi, ni fyddant yn cael eu derbyn tan ar ôl diwedd y flwyddyn. O'r herwydd, bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2022/23. |

Ceir rhestr lawn o wariant cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 43% o'i gyllideb, a rhagwelwyd tanwariant sylweddol drwy gydol 2021/22. Am ragor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT yn 2021/22, gweler yr adroddiad monitro cyllideb y CRT Ch4 a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2022.

**2.4** Fel y gwelir yn Nhabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Digefnogaeth a Chyfraniadau Refeniw. Sonnir am y prif reswm dros y tanwariant mewn grantiau ym mharagraff 2.2, lle mae prosiectau grantiau Cyfalaf mawr megis Porth Twristiaeth, Penrhos Cam 2 ac Unedau Porth, ynghyd â nifer o gynlluniau llifogydd ac Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II), wedi tanwario'n sylweddol yn erbyn y gyllideb a osodwyd. Mae dyraniad newydd ar gyfer rhai o'r cynlluniau hyn yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23, gyda dim ond cyfran o'r tanwariant yn llithro ac, yn achos cynlluniau eraill, bydd y tanwariant yn llithro'n gyfan gwbl i 2022/23. Mae manylion y symiau llithriant i'w gweld yn Atodiad B. Y prif reswm am yr amrywiant yn y Benthyca Digefnogaeth yw'r tanwariant sylweddol yn y CRT, gan fod y gwariant wedi'i gyllido gyfan gwbl o grantiau a chyfraniadau refeniw ac nid oedd angen benthyca digefnogaeth. Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cyfrannu at yr amrywiant mewn Benthyca Digefnogaeth gan i'r gwaith gael ei gyllido'n llawn gan grant a chronfeydd wrth gefn, ac roedd tanwariant ar y Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a oedd, yn rhannol, yn cael ei gyllido gan Fenthyca â Chefnogaeth. Yn ogystal â hyn, roedd mynediad i'r anabl mewn adeiladau addysg yn cael ei gyllido'n llawn gan grant yn hytrach na benthyca â chefnogaeth ac, fel y nodwyd ym mharagraff 3.1.24, derbyniodd yr Awdurdod gyllid grant ychwanegol a ddefnyddiwyd yn lle cyllid lleol yn 2021/22, a chyfrannodd hyn ymhellach i'r amrywiant yn y Benthyca â Chefnogaeth. Mae'r amrywiant yn y Cyfraniad Refeniw yn deillio o'r tanwariant yn y CRT, sy'n cael ei gyllido'n bennaf gan gyfraniadau refeniw.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22. Mae rhai cynlluniau blynyddol wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, megis Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd, Cyfalaf Chwarae, Cyfalaf Dechrau'n Deg, Grant Llifogydd Graddfa Fach a Grant Galluogi. Hefyd, roedd rhai cynlluniau y dyfarnwyd cyllid grant iddynt mewn blynyddoedd blaenorol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis Isadeiledd Strategol Caergybi. Mae rhai cynlluniau'n mynd rhagddynt a byddant yn parhau yn 2022/23, megis Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Porth Twristiaeth, cynlluniau Lliniaru Llifogydd amrywiol, Grant Cyfalaf Gofal Plant, Trawsnewid Treflun Caergybi, Penrhos Cam 2 ac Unedau Porth Llangefni. Dyfarnwyd cynlluniau Grantiau Cyfalaf newydd hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys grant Prydau Ysgol am Ddim a grant Gwella Isadeiledd (Cronfa Trafnidiaeth Leol).

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy –** Mae gwaith ar yr Ysgol Corn Hir newydd yn dod yn ei flaen yn dda ar y safle ac mae Strwythurau Cam 1 a 2 a'r To wedi'u cwblhau. Cwblhawyd dros 50% o orffeniadau'r waliau allanol. Gosodwyd y tanciau arafu dŵr glaw o dan y maes parcio ac mae gwaith tirlunio allanol yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae gosodiadau cyntaf mecanyddol a thrydanol bron â'u cwblhau ac mae gwaith plastro mewnol wedi dechrau ar rannau o fewn Cam 1. Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig – ailwahoddwyd tendrau a chyflwynwyd y Cais Cynllunio Llawn. Derbyniwyd cymeradwyaeth gyllidol i'r Cynllun Busnes Llawn.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant –** Cwblhawyd y cynlluniau yn Ysgol Gwalchmai, Ysgol Henblas, Bodedern, Rhosneigr, Rhoscolyn a'r Fali.

- **Neuadd y Farchnad** – Mae elfen gyfalaf y prosiect wedi'i gwblhau**.** Mae'r gyllideb sy'n weddill yn ymwneud â gosod dehongliad treftadaeth yn yr amlen fewnol ac mae'n cael ei gyllido o ffynonellau allanol. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn ystod 2022/23, ynghyd ag arfarniad o'r prosiect a'u gau'n ffurfiol.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun (THI))** – Mae'r cyfle i ddefnyddio cyllideb Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n weddill wedi canolbwyntio ar gynorthwyo i sicrhau'r lefel uchaf bosib o gymorth o Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU ar gyfer Caergybi. Lansiwyd llawer o waith datblygu prosiect yn ystod chwarter 4 i gynorthwyo gyda gwaith i ddatblygu prosiectau trydydd parti, gan ganolbwyntio ar ddod ag adeiladau hanesyddol yng nghanol y dref yn ôl i ddefnydd.

- **Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru – Grant Creu Lle –** Cymeradwywyd pedwar bid ar Ynys Môn, am gyllid gwerth £0.795m, yn 2021/22 ac roedd y cyllid i gyd wedi'i wario erbyn diwedd chwarter 4. Defnyddiwyd y cyllid i lenwi bwlch cyllido mewn nifer o gynlluniau Tai, Eiddo ac Adfywio mewn trefi.

- **Cynllun Grant Hwb - Isadeiledd mewn Ysgolion** - Mae'r holl gyfarpar oedd yn weddill wedi'i gyflenwi ac mae'r gwaith diweddaru isadeiledd a oedd angen ei wneud yn Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol Uwchradd Bodedern wedi'i gwblhau yn awr.

- **Porth Twristiaeth -** Cafodd gwaith yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd ei ail-dendro yn llwyddiannus gan ddefnyddio fframwaith rhanbarthol a phenodwyd contractwr. Mae gwaith i ddiweddaru'r toiledau a'r ciosg wedi'i gomisiynu. Mae cyllid Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) wedi'i gymeradwyo hyd at 31 Rhagfyr 2022 ar hyn o bryd. Mae nifer o broblemau a risgiau yn dal i fodoli mewn perthynas ag elfennau'r cynllun a gymeradwywyd yn wreiddiol, yn ymwneud â lleoliadau trydydd parti cymhleth. Ar hyn o bryd, mae'r tebygolrwydd o'u cyflawni erbyn y terfyn amser yn cael ei adolygu, ac mae cynlluniau diwygiedig yn cael eu hystyried, yn amodol ar ddod i gytundeb â Chroeso Cymru.

- **Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** – Mae'r gwaith o ddylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd wedi'i gwblhau erbyn hyn.

- **Prosiect Penrhos Cam 2** – Yn dilyn proses gaffael, sicrhawyd cyllid ychwanegol trwy weithred amrywio i'r Gyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru. Penodwyd Wynne Construction i gwblhau cynllun Penrhos Cam 2 a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda'r contractwr. Rhagwelir y bydd gwaith yn dechrau yn ystod chwarter 1 2022/23.

- **Prosiect Porth Llangefni –** Ardal o Langefni lle bydd 7 plot yn cael eu datblygu yn y pen draw yw safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd).

    - **Unedau Porth (ERDF) –** Mae gwaith wedi cychwyn ar y safle ac maent ar amser i'w cwblhau erbyn diwedd chwarter 1 2022/23. Cwblhawyd gwaith ar yr is-strwythur, a chwblhawyd y ffrâm ddur a'r cladin yn ystod chwarter 4 hefyd.

    - **Cyd-Fenter Porth –** Dechreuodd gwaith archeolegol ar y safle yn ystod chwarter 4. Cwblhawyd plot 2 a'i gymeradwyo tra bod gwaith wedi dechrau ar blot 7. Amserlenwyd gwaith ecoleg i'w gwblhau yn ystod chwarter 1 2022/23. Bydd gwaith lliniaru ecolegol a gwaith cysylltiedig yn cael eu gwneud ar y safle yn ystod chwarter 1 2022/23.

- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch** – Mae'r astudiaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, mae'r arolygon teledu cylch cyfyng wedi'u cwblhau er mwyn llywio'r gwaith o adeiladu'r model, ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Yn Amlwch, cytunwyd ar y fanyleb fodelu a chynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r ymgynghorydd modelu. Mae arolygon afonydd wedi dechrau. Bydd yr astudiaethau hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

- **Gwaith Grant Graddfa Fach (15 lleoliad)** - Cwblhawyd 12 cynllun yn 2021/22, ac ni ddigwyddodd y cynlluniau arfaethedig yng Nghlyttir Mynydd Bodafon, Lôn Ganol Llandefgan a Pant Lodge Llanfairpwll oherwydd anawsterau ar y safle (cyfyngiadau amgylcheddol ac archeolegol), yr angen i ddod i gytundeb â thua phedwar perchennog tir gwahanol, yn ogystal â chapasiti staffio presennol tîm Dylunio'r Gwasanaeth. Ailgyflwynwyd y cynlluniau i'w cymeradwyo'r flwyddyn nesaf.

- **Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** – Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y safle yn ystod yr haf a gohiriwyd cyfran o'r gwaith. Disgwylir adroddiad dylunio maes o law gan ymgynghorydd ar gyfer y gwaith a ohiriwyd.

- **Traeth Coch** – Ar ôl derbyn tendrau gan gontractwyr a phrisiau sy'n adlewyrchu costau cynyddol gwaith peirianyddol ar hyn o bryd, nid oedd dadansoddiad cost a budd o'r cynllun hwn yn llwyddiannus ac felly ni fydd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru (LlC). Mae trafodaethau'n parhau gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun amgen, ond ar raddfa cryn dipyn yn llai, i'w gyflwyno i LlC yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 a'i adeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol (2023/24), os bydd y cais am grant yn llwyddiannus.

- **Achos Busnes Llawn (ABLl) Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali** - Mae'r tri chynllun llifogydd yn mynd rhagddynt. Mae pryderon ynglŷn â heriau yn gysylltiedig â'r opsiwn a ffafrir yn Llanfairpwll, a rhagwelir y bydd angen gwaith pellach yma. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r ymgynghorydd sy'n gweithio ar y prosiect. Bydd ABLl (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfairpwll yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cynllun y Fali (ABLl) wedi'i gwblhau yn awr ac mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Cwblhawyd rhagor o ymchwiliadau safle ac arolygon draenio ar gynllun Porthaethwy, a bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adeiladu'r model hydrolig ac i lywio dyluniad y cynllun. Bydd hyn yn parhau dros yr haf, felly, ni fydd y gwaith adeiladu yn dechrau tan ddiwedd 2022/23 ar y cynharaf.

- **Mill Lane – Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLlN)** – Mae'r gridyll mecanyddol arloesol sy'n glanhau ei hun (yr unig sustem o'i fath yng Nghymru ar hyn o bryd) yn weithredol. Mae'r peiriant yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus i asesu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd, a dysgwyd rhai gwersi'n barod. Mae rhai addasiadau, yn cynnwys darparu system fonitro teledu cylch cyfyng, yn cael eu datblygu. Mae trafodaethau'n parhau â'r tirfeddiannwr ynglŷn â'r rhan RhLlN, er eu bod yn datblygu'n araf. Mae adroddiad statws yn cael ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru.

- **Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLlN) ar Gwrs Dŵr Cyffredin Dwyran** - Mae'r cynllun hwn fwy neu lai wedi'i gwblhau (gyda rhai mân broblemau angen sylw) ac mae'n parhau i gael ei fonitro er mwy dysgu mwy am ei effeithiolrwydd. Mae Prifysgol Glyndŵr hefyd yn monitro'r llif ar gyfer eu hymchwil academaidd.

- **Galluogi –** Roedd y grant hwn wedi'i hawlio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd** – Sicrhawyd cyllid gwerth £0.300m. Mae'r prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ffyrdd ar yr A545, o Borthaethwy i Fiwmares. Gwariwyd £0.255m hyd at chwarter 4, a gellir priodoli'r tanwariant i wrthwynebiad gan y Cyngor Tref i groesfan wedi'i rheoli ar y brif stryd ym Miwmares ac, felly, tynnwyd y cynllun yna yn ôl.

- **Teithio Llesol** – Dyfarnwyd cyllid ychwanegol yn hwyr yn chwarter 2 ac, ar ôl ail-broffilio yn chwarter 4, cyfanswm y swm a ddyfarnwyd ar gyfer 2021/22 oedd £1.056m. Mae cyllid o'r grant wedi cael ei ddyrannu fel a ganlyn:-

  - **£0.290m** ar gyfer gwaith Craidd yn cynnwys nifer o gynigion am gynlluniau. Derbyniwyd mân adborth ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol gan LlC ac mae CSYM wedi ei ailgyflwyno i'w gymeradwyo. Mae gwaith dylunio, paratoi ac adeiladu wedi'i gwblhau ar lwybr presennol yn Llanfairpwll ger yr A5 a'r lawnt fowlio, a chwblhawyd dyluniad manwl a gwaith arolwg yn Llanfairpwll (Cynllun Lôn Graig i Lôn Refail). Cwblhawyd astudiaethau Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ym Menllech, y Fali ac Amlwch, a cwblhawyd mân-waith ar ffordd gyswllt Ysgol Porthaethwy ac astudiaeth yng Nghil y Graig, Llanfairpwll hefyd.

  - **£0.137m** i ddatblygu llwybr yn ardal Caergybi, sydd yn rhan o gynllun Metro Gogledd Cymru LlC. Cwblhawyd egwyddorion a drafft o'r Cam Dyluniad Cysyniadol, sef Cam WelTAG 3C, a disgwylir am y fersiwn derfynol.

  - **£0.170m -** Pentraeth i Draeth Coch - ar gyfer gwaith ail-wynebu a lledu llwybr troed i wella'r cysylltiad rhwng Pentraeth a Thraeth Coch a allai fod yn gatalydd yn y dyfodol i alluogi gwelliannau pellach i gysylltu â Benllech. Mae gwaith ail-wynebu, croesfannau a lledu llwybrau troed i wella cysylltiadau rhwng Pentraeth a Thraeth Coch wedi parhau drwy gydol chwarter 4 ac mae Ove Arup wedi cwblhau gwaith dylunio ar gyfer y rhan o'r llwybr o'r cyfyngiad 30mya ym Mhentraeth (ochr Benllech) i'r sgwâr yng nghanol y pentref.

  - **£0.147m –** Canol Tref Llangefni a'r ardal breswyl ger Canol y Dref – gwella'r llwybrau presennol i safonau Cyd-ddefnyddio a gwella cysylltiadau o Faes Hyfryd i gyffiniau ardal canol y dref. Cwblhawyd Gwaith Dylunio a pharhawyd i ymgynghori â Chyngor Tref Llangefni a'r Grŵp Adfywio. Ymgynghorwyd â Grŵp Tir ac Asedau CSYM er mwyn dod i gytundeb ar waith ger swyddfeydd y Cyngor Sir. Dyrannwyd pecyn mân waith clirio a gwaith sifil i'r Contractwr Tymor, ac mae'r gwaith wedi cychwyn ac yn tynnu tua'i derfyn.

- **£0.312m** – ar Lôn Las – ailwynebu a lledu'r llwybr cyd-ddefnyddio presennol. Cymeradwywyd Trwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â chaniatâd Eithriad – roedd angen hyn cyn cychwyn gwaith sifil. Mae Ove Arup wedi cwblhau'r dyluniad i asesu'r gwelliannau y gellir eu gwneud ar groesfan yr A5 (i ddarparu croesfan mwy diogel a deniadol) a disgwylir pris gan y prif gontractwr. Trefnwyd i gau'r llwybr troed ac mae rhaglen o waith i ailwynebu a lledu'r llwybr cyd-ddefnyddio presennol (a mân waith cysylltiedig) wedi dechrau ac mae'n tynnu tua'i derfyn.

  **Y Gronfa Ffyrdd Gwydn** – Cynhaliwyd mwy o arolygon fel rhan o astudiaeth WelTAG Cam 3, a bydd yr Adroddiad Cam 3 terfynol yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Bydd yr adroddiad hwn yn sail i unrhyw gais am gyllid grant Cam 4 WelTAG yn y dyfodol.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn** - Daethpwyd i gytundeb â LlC ynglŷn â chynyddu'r gyllideb ac ymestyn y terfyn amser i fis Gorffennaf 2022. Sicrhawyd cyllid ychwanegol yn chwarter 4 i brynu (trwy Scottish Power Energy Networks) Is-orsaf yn y Maes Parcio Parcio a Rhannu yn Sant Tysilio, Llanfairpwll. Penodwyd Alun Griffith yn Brif Gontractwr ar gyfer cyflenwi a gosod Mannau Gwefru Cerbydau Trydan. Cwblhawyd yr holl waith galluogi mewn perthynas â gwaith i gysylltu ceblau trydan o'r is-orsaf i'r Unedau GRP a chynlluniwyd ail gam y gwaith i osod Mannau Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer mis Mehefin 2022.

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol** – Gwelliannau isadeiledd – dyfarnwyd £0.750m i hwyluso Gwelliannau Isadeiledd ar Ynys Môn er mwyn cefnogi gwaith darparu rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth Cymru. Sicrhawyd estyniad amser tan fis Gorffennaf 2022. Roedd gwaith yn ystod chwarter 4 yn cynnwys caffael Isadeiledd Amser Real a phenodi Contractwr Tymor Priffyrdd ar gyfer y cam gosod a chodwyd archeb ar gyfer y gwaith hwnnw.

- **Grantiau Gwres Carbon Isel** – Dyfarnwyd cyllid LlC i'r Cyngor mewn perthynas â grantiau Carbon Isel Sector Cyhoeddus (ar gyfer Ysgol Gynradd Moelfre (£0.091m) a Swyddfeydd y Cyngor (£1.033m)) er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r gwaith o gyflenwi a gosod pympiau gwres. Cynigiwyd y grantiau hyn yn hwyr yn chwarter 3 ac roedd angen cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Gwariwyd 90% o'r ddau ddyfarniad grant a derbyniwyd caniatâd gan LlC i ddwyn gweddill y grant ymlaen i flwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn cwblhau'r gwaith yn chwarter 2.

- **Grant Ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion a Grant Prydau Ysgol am Ddim** – Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £1.236m a £0.594m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2021/22, yn lle defnyddio adnoddau ariannol yr Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021/22 oedd:-

| | Cyllideb 2020/21 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Mawrth-2022 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 300 | 405 | 105 |
| Cyffredinol | 284 | 1,521 | 1,237 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 192 | 0 | (192) |
| **Cyfanswm** | **776** | **1,926** | **1,150** |

**3.2.2** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy ar gyfer 2021/22 yn £1.926m, yn erbyn cyllideb o £0.776m, sydd yn fwy na'r gyllideb. Y prif reswm dros yr amrywiant yw na werthwyd asedau a oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, sy'n dod i gyfanswm o £290k. Nid oes bwriad gwerthu un o'r asedau hyn yn ystod 2022/23, a rhagwelir y bydd y lleill yn cael eu gwerthu yn 2022/23. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan dderbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gyllideb (£1.389m) a hefyd derbyniwyd mwy am asedau a werthwyd nag a ragwelwyd yn y gyllideb (£51k).

Fel y gwelir yn Atodiad B, bydd rhai o'r cynlluniau Cyfalaf yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23. Bydd y llithriant yn y Derbyniadau Cyfalaf hyn yn cyllido'n rhannol y llithriant yn y rhaglen gyfalaf. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd dros ben, ar ôl cyllido unrhyw orwariant a gwaith pellach, yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, ni fydd y cyfan o'r ffigwr hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, a neilltuir cyllid ar gyfer cronfa wrth gefn glustnodedig Hamdden er mwyn cyllido gwelliannau hamdden.

## 4. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**4.1** Cafodd Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2022/23 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 (yn cynnwys y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £35.961m. Gellir rhannu hyn yn ôl:-

- **Cronfa Gyffredinol**
  - Ymrwymiadau 2021/22 wedi eu dwyn ymlaen - £1.322m
  - Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol - £5.042m
  - Prosiectau Cyfalaf Newydd 2022/23 - £2.215m
  - Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £8.598m

- **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**
  - Dyraniad ar gyfer cynlluniau 2022/23 - £18.784m

Y cyllid arfaethedig fydd £7.662m (21%) o ffynonellau cyllido allanol, megis Grantiau Cyfalaf, a £28.299m (79%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.325m o fenthyca â chefnogaeth, £11.399m o fenthyca digefnogaeth, a bydd y £13,575m sy'n weddill yn cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

**4.3** Fel y gwelir yn Atodiad B, argymhellir bod £11.242m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23 fel llithriant ar gyfer cynlluniau cyfalaf na chwblhawyd erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Mae'r cynlluniau'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r Gronfa Gyffredinol, gan na ofynnwyd am lithriant ar gyfer cynlluniau CRT gan y barnwyd bod y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn ddigonol ar gyfer y gwariant cyfalaf arfaethedig. Bydd y cyllid ar gyfer cynlluniau sy'n llithro hefyd yn llithro i 2022/23 ac mae hyn yn cynnwys £0.252m o Dderbyniadau Cyfalaf, £4.425m o Grantiau cyfalaf, £3,816m Benthyca â Chefnogaeth, £0.200m o fenthyca digefnogaeth a £2.472m o Gronfeydd Wrth Gefn a £0.077m mewn perthynas â benthyciad. Mae digon o danwariant yn erbyn y ffynonellau cyllido hyn y gellir ei ddwyn ymlaen i 2022/23.

**4.4** Os bydd y llithriant yn Atodiad B i'r adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn, cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 fydd £47.203m, a bydd £28.419m o'r ffigwr hwnnw yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol a £18.784m yn ymwneud â'r CRT. Efallai y bydd cynlluniau ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2022/23 os daw cyllid grant ychwanegol ar gael.

## 5. EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

**5.1** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2022 yw £137.804m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, cyfanswm y benthyciadau allanol yw £125.349m.

Mae'r Awdurdod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22 (Atodiad 11 yn y datganiad hwnnw). Cyflwynir adolygiad llawn ar Reoli Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Er bod lefel y tanwariant yn sylweddol (47% o'r cyllid sydd ar gael), nid yw'n annisgwyl wrth ddelio gyda nifer o brosiectau mawr cymhleth lle mae angen cymeradwyaeth wleidyddol, dilyn rheoliadau caffael, derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyllido eraill a lle gall materion annisgwyl godi ar ôl i waith ddechrau ar y safle. Mae'r mwyafrif o'r tanwariant yn ymwneud â phrosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a gynlluniwyd (rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, prosiectau Isadeiledd, Prynu Tai a Datblygu Tai newydd ar gyfer y CRT). Gyda phrosiectau cyfalaf mawr, mae'n arferol gweld oedi annisgwyl ac nid yw'n anarferol gweld gwariant ar y math yma o brosiectau'n llithro. Ym mhob achos, mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau wedi ei sicrhau a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23, ac ni fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf ac arian sy’n llithro i 2022/23

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2022/23 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 600,000 | 504,774 | (95,226) | 84 | 16 | 95,226 | Angen llithriant er mwyn sicrhau cyllid digonol i gyllido cynlluniau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl sylweddol. Cyllidir y llithriant gan **benthyca â chefnogaeth.** |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 207,442 | 207,442 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 20,000 | 20,000 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 492,977 | 2,136 | (490,841) | 0 | 100 | 490,841 | Cyllidir y llithriant gan **benthyca â chefnogaeth.** |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 170,000 | 183,332 | 13,332 | 108 | (8) | 0 | |
| Grant Galluogi | 102,520 | 93,654 | (8,866) | 91 | 9 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Grant Creu Lle - Tai | 7,410 | 7,410 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Cyllidir y llithriant gan **dderbyniadau cyfalaf.** |
| **Cyfanswm** | **1,630,999** | **1,018,748** | **(612,250)** | **62** | **38** | **616,717** | |
| | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 15,482 | (384,518) | 4 | 96 | 0 | |
| Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai | - | 132,535 | 132,535 | | | 0 | |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,725,000 | 2,745,722 | (1,979,278) | 58 | 42 | 0 | |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 226,009 | (773,991) | 23 | 77 | 0 | |
| Gwaith Amgylcheddol | 880,000 | 103,966 | (776,034) | 12 | 88 | 0 | Dim angen llithriant - mae'r gyllideb newydd ar gyfer flwyddyn ariannol 2022/23 yn ddigonol i gyllido'r gwariant cyfalaf arfaethedig. |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 13,005,797 | 5,559,856 | (7,445,941) | 43 | 57 | 0 | |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 266,001 | (83,999) | 76 | 24 | 0 | |
| Risg Tân | 450,000 | - | (450,000) | 0 | 100 | 0 | |
| Tir Halogedig | - | 7,623 | 7,623 | | | 0 | |
| SATC | 1,750,000 | 665,852 | (1,084,148) | 38 | 62 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **22,560,797** | **9,723,046** | **(12,837,751)** | **43** | **57** | **0** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2022/23 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 400,000 | 255,489 | (144,511) | 64 | 36 | 144,511 | Derbyniwyd llai o geisiadau ar gyfer disgyblion anabl. Mae'r gwaith sydd ei angen yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn amodol ar astudiaeth dichonoldeb ar y blociau tai. |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 3,654,630 | 1,807,412 | (1,847,218) | 49 | 51 | 1,847,218 | Yn rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol o £1.236m i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2021/22, yn lle defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Defnyddir y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn i gyllido gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion yn 2022/23 - cyllidwyd gan **benthyca â chefnogaeth ac arian wrth gefn**. |
| Grant Prydau Ysgol am Ddim | 588,016 | 40,813 | (547,203) | 7 | 93 | 547,203 | Yn rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol o £0.588m i'r Awdurdod ar gyfer ysgolion mewn perthynas â chyflwynoo allan y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2021/22, yn lle defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Defnyddir y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn i gyllido gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion yn 2022/23 - cyllidwyd gan **arian wrth gefn**. |
| Offer Ysgol Bodedern | 70,466 | 70,466 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 63,208 | (136,792) | 32 | 68 | 136,792 | Cyllid i gynnal adolygiad o asesiadau risg safleoedd ysgolion - rhagwelir y bydd yn symyd ymlaen yn 2022/23 - i'w gyllido gan **benthyca â chefnogaeth**. |
| Dymchwel ysgolion | 33,150 | 101,295 | 68,145 | 306 | (206) | 0 | |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 1,500,000 | 509,149 | (990,851) | 34 | 66 | 990,851 | Cwblhau'r gwaith sy'n weddill - cyllidir y llithriant gan **arian wrth gefn**. |
| Chromebooks | 305,000 | 304,917 | (83) | 100 | 0 | 0 | |
| Ailwynebu Ardal Chwarae | 300,000 | 281,244 | (18,756) | 94 | 6 | 18,756 | Cwblhau'r gwaith sy'n weddill - cyllidir y llithriant gan **arian wrth gefn**. |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 217,000 | 215,310 | (1,690) | 99 | 1 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Grant Cyfalaf Chwarae | 112,000 | 112,500 | 500 | 100 | (0) | 0 | |
| Grant Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant) | 269,515 | 181,277 | (88,238) | 67 | 33 | 88,238 | Cynllun parhaus - cyllidir gan **grant.** |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant) | 792,901 | 514,311 | (278,590) | 65 | 35 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Moderneiddio Band A | 5,717,000 | 4,048,639 | (1,668,361) | 71 | 29 | 0 | Mae'r cynllun yn mynd rhagddo'n dda - Bydd y dyraniad newydd yn cyd-fynd â'r Matrics a ddiweddarwyd a dderbyniwyd. |
| Moderneiddio Band B | 1,523,000 | 327,093 | (1,195,907) | 21 | 79 | 0 | Bydd y dyraniad newydd yn cyd-fynd â'r Matrics a ddiweddarwyd a dderbyniwyd. |
| **Cyfanswm** | **15,682,678** | **8,833,123** | **(6,849,555)** | **56** | **44** | **3,773,569** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2022/23 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 188,722 | 0 | (188,722) | 0 | 100 | 188,722 | Cynlluniau ar gyfer cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf, felly, bydd angen i'r gyllideb sy'n weddill lithro - cyllidir gan **arian wrth gefn**. |
| Cae Chwarare 3G Caergybi | 150,000 | 154,993 | 4,993 | 103 | (3) | 0 | |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 70,000 | 56,155 | (13,845) | 80 | 20 | 13,845 | Cynllun yn parhau i 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **arian wrth gefn.** |
| Croesfan Lôn Parc Newydd | 30,000 | 29,473 | (527) | 98 | 2 | 0 | |
| Porth Twristiaeth | 1,340,000 | 0 | (1,340,000) | 0 | 100 | 50,000 | Cyllid y Cyngor i'w ddwyn ymlaen - dyraniad grant newydd yng nghyllideb 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 150,000 | 119,393 | (30,607) | 80 | 20 | 0 | |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 2 | 1,231,000 | 101,110 | (1,129,890) | 8 | 92 | 1,129,890 | Cynllun yn parhau i 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **grant, benthyca â chefnogaeth ac arian wrth gefn.** |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 5,565 | 6,337 | 772 | 114 | (14) | 0 | |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 85,600 | 0 | (85,600) | 0 | 100 | 85,600 | Gofynnwyd i'r cyllid lithro i'w ddefnyddio'n y dyfodol - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | (30,000) | 0 | 100 | 30,000 | Cyllidir y llithriant gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Canolfan Gymuned Newry | 48,201 | 42,565 | (5,635) | 88 | 12 | 0 | |
| Unedau Porth | 1,909,000 | 1,037,165 | (871,835) | 54 | 46 | 871,835 | Cynllun yn parhau i 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **grant, benthyca â chefnogaeth a benthyca di-gefnogaeth.** |
| Cyd-fenter Safle Porth | 231,000 | 88,931 | (142,069) | 38 | 62 | 142,069 | Cynllun yn parhau i 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **grant.** |
| Shell Penns | 50,000 | 62,501 | 12,501 | 125 | (25) | 0 | |
| Grant Porth Amlwch | 23,062 | 19,226 | (3,836) | 83 | 17 | 3,836 | Cyllidir y llithriant gan **grant**. |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | (10,064) | 0 | 100 | 10,064 | Cyllidir y llithriant gan **grant**. |
| Cerbyd Cyfoeth Naturiol Cymru | 14,261 | 14,111 | (150) | 99 | 1 | 0 | |
| Parc y Morglawdd | 3,001 | 3,001 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3 | 14,550 | 14,550 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Grant Creu Lle - Gwelliannau Eiddo Diwydiannol | 124,032 | 124,032 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| AHNE - Adferiad Gwyrdd | 257,935 | 20,161 | (237,774) | 8 | 92 | 237,774 | Cyllidir y llithriant gan **grant**. |
| Grant AHNE - cerbyd trydan | 26,121 | 26,512 | 391 | 101 | (1) | 0 | |
| Grant AHNE - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd | 152,314 | 161,364 | 9,050 | 106 | (6) | 0 | |
| **Cyfanswm** | **6,144,427** | **2,081,580** | **(4,062,847)** | **34** | **66** | **2,763,634** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2022/23 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd** | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 20,068 | 15,535 | (4,533) | 77 | 23 | 4,533 | Archebion wedi ei dwyn ymlaen i 2022/23 - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaet** |
| Cerbydau | 354,194 | 80,450 | (273,744) | 23 | 77 | 273,744 | Gwariant wedi ei ymrwymo - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth a derbyniadau cyfalaf.** |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,189,688 | 2,198,806 | 9,118 | 100 | (0) | 0 | |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 479,669 | 4,419 | (475,250) | 1 | 99 | 0 | Cyflwynwyr yr hawliad terfynol - dim llithriant. |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC) | 28,049 | 5,535 | (22,514) | 20 | 80 | 0 | Cyflwynwyr yr hawliad terfynol - dim llithriant. |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 32,291 | - | (32,291) | 0 | 100 | 32,291 | Gwaith yn parhau - cyllidir gan **grant ac arian wrth gefn.** |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 52,144 | 37,266 | (14,878) | 71 | 29 | 14,878 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant a benthyca â chefnogaeth**. |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch | 74,153 | 50,220 | (23,933) | 68 | 32 | 23,933 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant ac arian wth gefn**. |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 399,647 | 1,998 | (397,649) | 1 | 99 | 397,649 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant a benthyca â chefnogaeth.** |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 156,177 | 34,282 | (121,895) | 22 | 78 | 121,895 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant.** |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 113,316 | 71,967 | (41,349) | 64 | 36 | 41,349 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant.** |
| Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu | 538,000 | 164,044 | (373,956) | 30 | 70 | 373,956 | Gwaith yn parhau - cyllidir gan **grant, benthyca â chefnogaeth ac arian wth gefn**. |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 54,300 | - | (54,300) | 0 | 100 | 54,300 | Gwaith yn parhau - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol) | 225,000 | - | (225,000) | 0 | 100 | 225,000 | Cynllun wedi oedi a thrafodaethau'n mynd rhagddnt i ddatblygu cynllun amgen - cyllidir y llithriant gan **arian wrth gefn**. |
| Strwythur Mill Lane | 89,097 | 61,839 | (27,258) | 69 | 31 | 27,258 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant ac arian wth gefn**. |
| Dwyran - cwrs dŵr cyffredinol - NFM | 395,361 | 373,833 | (21,528) | 95 | 5 | 21,528 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant.** |
| Mill Lane - NFM | 243,960 | 2,320 | (241,640) | 1 | 99 | 241,640 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser ar gyfer y cyllid grant - cyllidir gan **grant.** |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 31,987 | 26,919 | (5,068) | 84 | 16 | 5,068 | Gwaith yn parhau - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 574,745 | 385,951 | (188,794) | 67 | 33 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Teithio Llesol | 1,055,631 | 1,051,492 | (4,139) | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| A545 Biwmares | 786 | - | (786) | 0 | 100 | 0 | |
| Hwb Porth Caergybi | 42,600 | 42,600 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 300,000 | 225,368 | (74,632) | 75 | 25 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 220,000 | 208,864 | (11,136) | 95 | 5 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unig - dim llithriant. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwelliannau Isadeiledd | 750,000 | 77,122 | (672,878) | 10 | 90 | 672,878 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser - cyllidir gan **grant.** |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - pwyntiau gwefru cerbydau trydan | 272,590 | 144,793 | (127,797) | 53 | 47 | 127,797 | Gwaith yn parhau - cymeradwywyd estyniad amser - cyllidir gan **grant.** |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 300,000 | 24,473 | (275,527) | 8 | 92 | 275,527 | Gwaith yn parhau - cyllidir gan **grant.** |
| **Cyfanswm** | **8,993,453** | **5,290,096** | **(3,703,357)** | **59** | **41** | **2,935,224** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2022/23 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Contract Gwastraff | 2,198,779 | 2,198,327 | (452) | 100 | 0 | 0 | |
| Cyllid Economi Cylchol (266) | 64,093 | 64,093 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Cyllid Economi Cylchol (265) | 13,175 | 7,339 | (5,836) | 56 | 44 | 5,836 | Dyfarnwyd estyniad amser ar gyfer y grant ar gyfer peiriannau penodol na chafodd eu cyflenwi ar amser - cyllidir gan **grant.** |
| **Cyfanswm** | **2,276,047** | **2,269,759** | **(6,288)** | **100** | **0** | **5,836** | |
| | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 854,953 | 485,379 | (369,574) | 57 | 43 | 369,574 | Oedi ym mhrosiectau Plas Arthur oherwydd fod Canolfan Addysg y Bont yn defnyddio'r safle - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Salix Cam 1 | 207,662 | 130,594 | (77,068) | 63 | 37 | 77,068 | Bydd y gwaith sy'n weddill yn cael ei orffen - cyllidir gan **fenthyciad.** |
| Salix Cam 2 | 400,000 | 400,123 | 123 | 100 | (0) | 0 | |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor | 1,033,601 | 913,038 | (120,563) | 88 | 12 | 120,563 | Prosiect yn parhau - cyllidir gan **grant.** |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Ysgol Gynradd Moelfre | 91,250 | 82,125 | (9,125) | 90 | 10 | 9,125 | Prosiect yn parhau - cyllidir gan **grant.** |
| Adnewyddu Mânddaliadau | 212,277 | 128,600 | (83,677) | 61 | 39 | 83,677 | Cyllidir gan **dderbyniadau cyfalaf.** |
| **Cyfanswm** | **2,799,743** | **2,139,860** | **(659,883)** | **76** | **24** | **660,007** | |
| | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 418,466 | 0 | (418,466) | 0 | 100 | | |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 122,193 | 287,545 | 165,352 | 235 | (135) | 280,708 | Tanwariant bwriadol oherwydd yr angen i adnewyddu'r brif system storio flash yn 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 23,244 | 0 | (23,244) | 0 | 100 | | |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 19,964 | 15,614 | (4,350) | 78 | 22 | | |
| Ystafelloedd Cyfarfod Hybrid | 210,000 | 192,430 | (17,570) | 92 | 8 | 0 | |
| Offer Technegol Addysg - TG | 241,917 | 241,917 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Hwb Isadeiledd TG | 30,000 | 56,149 | 26,149 | 187 | (87) | 0 | |
| **Cyfanswm** | **1,065,784** | **793,655** | **(272,129)** | **74** | **26** | **280,708** | |
| | | | | | | | |
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| Prosiect Hwb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 262,404 | 104,509 | (157,895) | 40 | 60 | 0 | Gwaith cyfalaf nawr wedi'i gwblhau. |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 952,960 | 279,652 | (673,308) | 29 | 71 | 75,000 | Cyllid y Cyngor i'w ddwyn ymlaen - dyraniad grant newydd yng nghyllideb 2022/23 - cyllidir y llithriant gan **dderbyniadau cyfalaf ac arian wrth gefn cyfalaf**. |
| **Cyfanswm** | **1,215,364** | **384,161** | **(831,203)** | **32** | **68** | **75,000** | |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| Cronfa Gofal Integredig | 994,246 | 919,892 | (74,354) | 93 | 7 | 0 | Mae cyllidebau cynlluniau unigol o fewn Cronfa Gofal Integredig yn cael eu haddasu drwy'r flwyddyn, cynllun newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, dim llithriant. |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | (13,155) | 0 | 100 | 13155 | Gwaith yn parhau, cyllidir gan **grant**. |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 37,978 | 3,081 | (34,897) | 8 | 92 | 34897.44 | Oedi yn parhau o ran cyflenwi ffenestri ac efallai bydd rhaid ail-dendro - cyllidir y llithriant gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | (83,371) | 0 | 100 | 83371 | Oedi oherwydd anallu parhaus i gael mynediad i'r cartref - cyllidir y llithriant gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| **Cyfanswm** | **1,128,750** | **922,972** | **(205,778)** | **82** | **18** | **131,423** | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **63,498,042** | **33,457,000** | **(30,041,041)** | **53** | **47** | **11,242,118** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad I: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **29 MEHEFIN 2022** |
| Pwnc: | **ADRODDIAD ALLDRO'R CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 4 2021/22** |
| Aelod(Au) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| Pennaeth Gwasanaeth: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur Yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-Bost: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>**BethanOwen2@ynysmon.llyw.Cymru** |
| Aelodau Lleol | **Amh.** |

**A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**2. Cefndir**

**(i)** Dengys yr adroddiad hwn gyllideb gyfalaf sydd â gwarged a gyllidwyd o £8,771k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 oedd £22,561k, yn cynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2020/21, sef cyfanswm o £2,248k. Yn wreiddiol, roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau £2,674k a benthyca £2,000k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn arwain at ddiffyg cyllidebol a gynlluniwyd o £9,116k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian wrth gefn ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn yn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £942k o gymharu â'r gyllideb. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae gwariant Cyfalaf £12,667k yn is na'r gyllideb, ar ôl ystyried y cyllid Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol o £706k. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A a B.

**(iii)** Mae'r gwarged (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £11,726k yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod gwariant cyfalaf yn is na'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer. Mae hyn yn gynnydd o £1,851k o gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn yr adroddiad ar gyfer Chwarter 3, yn bennaf oherwydd yr Incwm Grant Cyfalaf ychwanegol a dderbyniwyd yn Chwarter 4 sy'n gwrthbwyso'r gostyngiad o £648k mewn gwarged refeniw o gymharu â'r rhagolwg yn Chwarter 3.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £230k yn is na'r gyllideb, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm rhent £388k yn is na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, £149k yn waeth na'r rhagolwg ar ddiwedd Chwarter 3. Roedd yr incwm gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn yn is na'r rhagolwg blaenorol oherwydd na chodwyd rhent ar gyfer wythnos y Nadolig. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'n amlwg bod y gyllideb a osodwyd yn rhy optimistaidd, ac mae camau wedi cael eu cymryd i sicrhau bod cyllideb gywirach yn cael ei gosod ar gyfer 2022/23.

**(iii)** Roedd incwm o daliadau gwasanaeth, sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol, £18k yn well na'r gyllideb ond £7k yn is na'r rhagolwg ar ddiwedd Chwarter 3.

**(iv)** Roedd yr incwm eraill yn cynnwys darpariaeth ar gyfer grantiau sydd yn cael eu derbyn yn ystod chwarter olaf y flwyddyn yn draddodiadol. Nid yw'r rhain wedi bod ar gael eleni ac, o ganlyniad, mae'r incwm £70k yn is na'r gyllideb.

**(v)** Yn wreiddiol, roedd y ddarpariaeth a gyfrifwyd ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd cyfanswm y dyledion rhent yn £838k, o gymharu â £818k ar gyfer yr un cyfnod y llynedd, sef cynnydd o ddim ond £20k er bod Covid wedi effeithio ar allu tenantiaid i dalu. Y swm terfynol a neilltuwyd yn y cyfrifon ar gyfer dyledion drwg yw £79k, £213k yn well na'r gyllideb a gwelliant o £63k o'r rhagolwg yn Chwarter 3.

**6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £67k yn is na'r gyllideb. Mae'r tanwariant hwn yn ostyngiad o £43k o'r £110k o danwariant a ragwelwyd yn Chwarter 3.

**(ii)** Mae'r gwariant refeniw arall yn dangos gorwariant o £56k o gymharu â'r rhagolwg o gyllideb gytbwys ar ddiwedd Chwarter 3. Mae hyn o ganlyniad i wariant ar TG yn ystod y chwarter olaf.

**(iii)** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £117k o gymharu â'r gyllideb, mae hyn £7k yn uwch na'r tanwariant o £110k a ragwelwyd ar ddiwedd Chwarter 3. Roedd yna swyddi gwag (sydd wedi eu llenwi bellach) ac mae Covid wedi cyfyngu ar nifer y gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid y gellid eu cynnal.

**7. Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) yn dangos gorwariant o £942k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn bennaf oherwydd gorwariant o £219k ar isgontractwyr, £189k ar ddeunyddiau storfa, £100k ar wasanaethau arbennigol, £74k ar gostau yn gysylltiedig â'r fflyd a gorwariant o £59k ar gostau staffio. Roedd rhan sylweddol o'r gorwariant ar isgontractwyr o ganlyniad i benodi contractwr i ymgymryd ag Adroddiadau Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) a oedd wedi eu hatal yn ystod y pandemig Covid. Roedd y costau llafur ar gyfer y darn hwn o waith yn unig dros £120k, heb sôn am y costau deunyddiau storfa cysylltiedig ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i gynnal EICR mewn cartrefi pob 5 mlynedd.

**(ii)** Rhoddwyd rhaglen cynnal a chadw cynlluniedig ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad a achoswyd yn sgil y cyfyngiadau Covid pan nad oedd yn bosib ymweld â chartrefi heblaw ar gyfer cwblhau gwaith cynnal a chadw hanfodol. Mae hyn yn gynnydd o £492k o gymharu â'r rhagolwg ar ddiwedd Chwarter 3. O ganlyniad i'r rhaglen, codwyd 31,037 o archebion gwaith (cynnydd o 26.8%) yn ystod y flwyddyn ariannol, o gymharu â 24,475 o archebion gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

**(iii)** Yn dilyn ymgynghoriad a chefnogaeth gan Adnoddau Dynol, llwyddodd yr Uned Cynnal a Chadw Tai i gyflogi 3 prentis pellach ar gost o tua £75k, sydd ddim yn rhan o'r gyllideb graidd wreiddiol ar gyfer 2021/22.

**(iv)** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r UCChT £36k yn is na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a £9k yn llai na'r rhagolwg ar ddiwedd Chwarter 3. Problemau recriwtio staff yn y maes hwn sydd wedi achosi'r tanwariant hwn.

**(v)** Mae tanwariant o £19k ar gostau Trwsio a Chynnal a Chadw arall ar ddiwedd y flwyddyn, £46k yn llai na'r tanwariant o £65k a ragwelwyd yn Chwarter 3. Mae'r gwariant disgwyliedig ar waith trin carthion wedi'i ohirio tan 2022/23 ac, yn ystod y chwarter olaf, cafwyd gwariant ar waith atal tân a oedd i fod yn rhan o'r rhaglen gyfalaf yn wreiddiol.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r rhain yn dangos tanwariant o £108k o gymharu â'r gyllideb wreiddiol, gyda'r gwariant cyfalaf is na'r disgwyl yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf is o £136k.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021, yn werth cyfanswm o £20,313k. Nid oedd hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2020/21, a oedd yn dod i gyfanswm o £2,248k. Cyfanswm y gyllideb yw £22,561k, wedi'i gyllido gan £2,674k o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr, benthyca £2,000k a chyfraniad o £17,887k o'r cyfrif refeniw. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd cyfanswm y gwariant yn £10,458k, ynghyd â £12,103k o danwariant yn ogystal â chyllid grant ychwanegol o £565k. At ei gilydd, £12,667k oedd cyfanswm y tanwariant o ran gwariant cyfalaf. Bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau gwariant yn cael eu dwyn ymlaen i raglen gyfalaf 2022/23 a bydd cronfa'r CRT ar gael i gyllido'r rhaglen yn 2022/23. Mae'r amrywiannau mwyaf sylweddol wedi'u hamlinellu isod:-

**(ii)** Roedd y gyllideb yn tybio y byddai 15 o gyn dai Cyngor yn cael eu prynu'n ôl ond, ers y pandemig Covid, mae'r Gwasanaeth yn cael mwy o anhawster prynu tai am bris sy'n cwrdd â'r meini prawf buddsoddi oherwydd y cynnydd mewn prisiau tai a mwy o gystadleuaeth gan brynwyr preifat. Yn ystod y flwyddyn ariannol, aethpwyd i weld 27 o gyn dai Cyngor a oedd ar werth ond dim ond 9 o'r rhain gafodd eu prynu. Hefyd, mae'r broses ar gyfer codi tai newydd yn golygu sicrhau caniatâd amrywiol, er enghraifft: Cynllunio, Systemau Draenio Cynaliadwy a chymeradwyaeth grant gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd oedi â'r tri datblygiad sylweddol a oedd i fod i ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn Niwbwrch (14 o dai), Pentraeth (10 o dai) a Chaergybi (15 o dai), ac, felly, ni fydd y contractau adeiladu'n cael eu harwyddo tan blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r ffactorau hyn i gyfrif am £7,446k o'r tanwariant yn y rhaglen gyfalaf.

**(iii)** Mae'r pandemig Covid a'r cyfyngiadau gwaith cysylltiedig hefyd wedi effeithio ar y bwriad i fuddsoddi yn y stoc dai bresennol. Yn benodol, nid yw'r cynlluniau a oedd yn golygu treulio llawer iawn o amser yn gweithio y tu mewn i dai pobl wedi mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl. Er enghraifft y bwriad i osod ceginau newydd i SATC a gosod systemau llethu tân mewn dau floc fflatiau gwarchodol maint canolig. Hefyd, mae tanwariant o dan y pennawd Gwelliannau Effeithlonrwydd Ynni oherwydd y negodiadau parhaus gyda Gweithredwr Rhwydwaith y Rhanbarth (DNO). Yn anffodus, mae'r DNO wedi cael problemau gyda chapasiti'r rhwydwaith sydd wedi lleihau nifer y systemau a gymeradwywyd i'w gosod gan y DNO yn sylweddol yn ystod 2021/22.

**(iv)** Mae'r asesiadau risg Covid a datganiadau dull a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, ynghyd â phrinder neu ddiffyg nwyddau allweddol penodol, hefyd wedi arwain at oedi o ran cwblhau'r cynlluniau sydd ar y gweill. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar baratoadau a thendrau cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Er enghraifft, cafwyd oedi â'r rhaglen arfaethedig i newid bwyleri yn ystod 2021/22 ar ôl dyfarnu'r contract o ganlyniad i broblemau gweithgynhyrchu oherwydd bod y diwydiant cyfan yn cael trafferth caffael elfennau allweddol. Yn y diwedd, cychwynnodd y cynllun tuag at ddiwedd Chwarter 4.

**(v)** Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y cyfyngiadau Covid, oedi nad oedd modd ei osgoi gyda chynlluniau arfaethedig eraill a'r problemau y daeth contractwyr ar eu traws wrth gaffael deunyddiau allweddol, mae'r Gwasanaethau Tai wedi gohirio'r paratoadau a gwaith tendro ar y rhaglen cynnal a chadw traddodiadol arfaethedig ar gyfer 2021/22. Mae'r penderfyniad wedi cael effaith negyddol ar y lefelau gwariant disgwyliedig. Bydd y gwaith tendro ar gyfer y cynllun bellach yn digwydd yn ystod Chwarter 1 2022/23.

**(vi)** Dygwyd cyfran o'r gwariant ar adnewyddu rhai o gerbydau'r UCChT ymlaen o 2022/23, cyfanswm o £159k.

**(vii)** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod gostyngiad tebyg yn y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido'r prosiectau a ohiriwyd tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £9,723k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £9,116k o'r balans hwn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa alldro yn golygu y gellir ychwanegu £2,610k i'r balans, felly, ar 31 Mawrth 2022 roedd balans cau'r gronfa wrth gefn y CRT yn £12,333k. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**Dd – Asesu'r effaith posib (os yn berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio ar y cyd ag adroddiadau eraill i osod cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Asesir yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys wrth osod y gyllideb flynyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n gyson â'u tenantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yn cael eu hystyried wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adroddir ar ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT i'r Panel Sgriwtini Cyllid |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd chwarter 4
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 4

**Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2020/50 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2021)

| ALLDRO'R CYFRIF REFENIW TAI 2021/22 | | | | | ATODIAD A |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2021/22** | **Alldro** | **Amrywiant** | **Alldro Rhagamcanol yn Ch3** | **Newid o'r Rhagolygon yn Ch3** |
| | **£** | **£** | **£** | | |
| **CYFRIF REFENIW**<br><br>**Incwm** | | | | | |
| Anheddau | (19,167,000) | (18,779,013) | 387,987 | (18,928,000) | 148,987 |
| Garejys | (220,000) | (217,561) | 2,439 | (220,000) | 2,439 |
| Taliadau Gwasanaeth | (216,000) | (233,981) | (17,981) | (241,000) | 7,019 |
| Arall | (203,000) | (132,611) | 70,389 | (203,000) | 70,389 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 292,000 | 79,109 | (212,891) | 142,000 | (62,891) |
| **CYFANSWM INCWM** | **(19,514,000)** | **(19,284,057)** | **229,943** | **(19,450,000)** | **165,943** |
| **Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 248,820 | 131,747 | (117,073) | 138,820 | (7,073) |
| Gweinyddu Rhenti | 497,573 | 499,357 | 1,784 | 497,573 | 1,784 |
| Rheoli Stadau | 176,911 | 169,825 | (7,086) | 176,911 | (7,086) |
| Gwariant Refeniw Arall | 958,339 | 1,014,147 | 55,808 | 958,339 | 55,808 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **1,881,643** | **1,815,076** | **(66,567)** | **1,771,643** | **43,433** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 3,143,119 | 4,084,624 | 941,505 | 3,593,119 | 491,505 |
| Staff Cynnal a chadw Adeiladau (dim UCChT) | 935,282 | 899,618 | (35,664) | 890,282 | 9,336 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 662,572 | 643,294 | (19,278) | 597,572 | 45,722 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,740,973** | **5,627,536** | **886,563** | **5,080,973** | **546,563** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 2,518,000 | 2,382,485 | (135,515) | 2,518,000 | (135,515) |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai | 790,630 | 832,051 | 41,421 | 790,630 | 41,421 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog | 811,780 | 797,491 | (14,289) | 811,780 | (14,289) |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,120,410** | **4,012,027** | **(108,383)** | **4,120,410** | **(108,383)** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,743,026** | **11,454,639** | **711,613** | **10,973,026** | **481,613** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,770,974)** | **(7,829,418)** | **941,556** | **(8,476,974)** | **647,556** |

| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant 2021/22 | 22,560,797 | 10,458,046 | (12,102,751) | 10,392,142 | 65,904 |
| | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,674,000) | (2,685,000) | (11,000) | (2,674,000) | (11,000) |
| **Grantiau / Benthyciadau Eraill** | (2,000,000) | (2,553,578) | (553,578) | 0 | (2,553,578) |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **17,886,797** | **5,219,468** | **(12,667,329)** | **7,718,142** | **(2,498,674)** |
| | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **9,115,823** | **(2,609,950)** | **(11,725,773)** | **(758,832)** | **(1,851,118)** |
| | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (9,723,000) | (9,723,000) | | (9,723,000) | 0 |
| | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 9,115,823 | (2,609,950) | (11,725,773) | (758,832) | (1,851,118) |
| | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(607,177)** | **(12,332,950)** | **(11,725,773)** | **(10,481,832)** | **(1,851,118)** |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Alldro (£) | Amrywiant (£) | Alldro Rhagamcanol yn Ch3 (£) | Newid o’r Rhagolygon yn Ch3 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 15,482 | (384,518) | 300,000 | (284,518) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,725,000 | 2,753,345 | (1,971,655) | 2,750,000 | 3,345 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 226,009 | (773,991) | 400,000 | (173,991) |
| Gwaith Amgylcheddol | 880,000 | 103,966 | (776,034) | 207,623 | (103,657) |
| Caffael Eiddo Cyfredol / Datblygu Eiddo Newydd | 13,005,797 | 5,559,856 | (7,445,941) | 5,425,086 | 134,770 |
| Caffael Tir | 0 | 735,000 | 735,000 | 0 | 735,000 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 266,001 | (83,999) | 350,000 | (83,999) |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | (450,000) | 50,000 | (50,000) |
| SATC | 1,750,000 | 665,852 | (1,084,148) | 750,000 | (84,148) |
| Cerbydau'r UCChT | 0 | 132,535 | 132,535 | 159,433 | (26,898) |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **22,560,797** | **10,458,046** | **(12,102,751)** | **10,392,142** | **65,904** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2022 |
| **Pwnc:** | Costau Byw – Cynllun Dewisol |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Robin W Williams – Deilydd Portffolio - Cyllid<br>Alun W Mummery – Deilydd Portffolio - Tai |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Marc Jones -<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Llinos Wyn Williams – Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol<br>01248 752190<br>lwwhp@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol** | Amh. |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i bob awdurdod lleol i'w galluogi i ddarparu cymorth o dan gynllun dewisol, er mwyn cefnogi aelwydydd sydd angen help gyda'u costau byw.

Bwriedir i'r cynlluniau ddarparu cymorth ar unwaith wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig, a helpu aelwydydd i ddelio ag effaith y cynnydd presennol mewn costau ynni a chostau byw eraill.

Wrth ddatblygu Cynllun Dewisol lleol, bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut i dargedu'r cyllid i gefnogi trigolion i wneud yn siŵr mai hwn yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion aelwydydd unigol.

https://llyw.cymru/y-cynllun-cymorth-costau-byw-canllaw-i-awdurdodau-lleol

**1.1.** **Prif Gynllun** – bydd tua 23,000 o aelwydydd ar Ynys Môn yn derbyn taliad o £150 os ydynt ym mandiau A i D y Dreth Gyngor, ynghyd ag unrhyw aelwydydd sy'n derbyn cymorth drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mandiau E i I. Mae hyn oddeutu 75% i 80% o'n haelwydydd.

**1.2** **Cynllun Dewisol** yr Awdurdod lleol) - mae oddeutu £580,000 ar gael i'r Cyngor i'w weinyddu'n seiliedig ar anghenion a galw lleol, i gefnogi aelwydydd sy'n cael eu heffeithio gan y cynnydd sylweddol mewn costau byw. Dylid nodi hefyd y bydd unrhyw danwariant o'r prif gynllun yn cael ei drosglwyddo i'r cynllun dewisol. Nid yw lefel y tanwariant yn glir ar hyn o bryd, os bydd unrhyw danwariant o gwbl, ond fe all arwain at gynnydd sylweddol yn y cyllid a fydd ar gael ar gyfer y cynllun dewisol.

**Dalier Sylw** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Canghellor wedi rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn tlodi. Fe ddylai hyn arwain at gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru, ond nid yw'r glir sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r cyllid hwn ac a fydd yn cynyddu dyraniad y Cyngor o dan y prif gynllun neu'r cynllun dewisol.

**2.** **Cam Un o'r Cynllun Dewisol**

**2.1** Bydd Cam Un o'r Cynllun Dewisol yn targedu grwpiau penodol o unigolion a fydd yn gymwys i dderbyn cefnogaeth ariannol, sef :-

**2.1.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo darparu £150 i'r grwpiau canlynol, gyda chyllideb o £150,000 i'w gweinyddu gan adran Refeniw a Budd-daliadau CSYM.

| GRŴP | NIFER BOSIB O YMGEISWYR (os ar gael) |
|---|---|
| Yn darparu neu'n derbyn gofal – Dosbarth I a J | 11 a 4 |
| Amhariad Meddyliol Difrifol – Dosbarth U | 135 |
| Gadawyr Gofal – Dosbarth X | 10 |
| Trigolion sy'n byw mewn llety argyfwng | 70 |
| Gofalwyr di-dâl | Tua 100 wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth Cynnal Gofalwyr |
| Rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y cap budd-daliadau | Dim gwybodaeth ar hyn o bryd |
| Trigolion sy'n byw mewn lleoliadau llety â chymorth | Tua 50 |
| Sector Tai Cymdeithasol band E ac uwch (tai mwy) | Hyd at 20 |
| **Amodau hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor**<br><br>Os oedd y deilia(i)d tŷ yn derbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 15 Chwefror 2022, asesir bod ganddynt hawl i daliad o £150 yn awtomatig, waeth beth fo'r band prisio y mae eu heiddo ynddo. | 406 |
| Rheiny sydd wedi symud i eiddo Band A-D neu sydd wedi derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor ym mandiau A-I ar ôl y dyddiad cymwys o dan y prif gynllun (15 Chwefror 2022), ond nad oedd yn gymwys i'r prif gynllun oherwydd y dyddiad cymwys. | Tua 100 |

**2.1.2** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo cyllid caledi ar gyfer trigolion sy'n symud allan o lety brys i lety sefydlog:-

- Hyd at £300 o gyllid i dalu am gostau bwyd a / neu danwydd wrth symud i lety mwy sefydlog. Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am gostau tanwydd uniongyrchol megis olew. Yn ychwanegol, gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi costau dodrefnu. Bydd y cyllid o £50,000 yn cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Digartrefedd Statudol yn seiliedig ar anghenion asesedig.

**2.1.3** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo £150 ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd mewn Addysg Uwch ac sy'n rhentu neu'n berchen llety ar yr Ynys ac sydd wedi'u heithrio o gam un:-

- £5,000 i'w ddarparu i Grŵp Llandrillo Menai i weinyddu ar gyfer y grŵp uchod;
- £5,000 i'w ddarparu i Brifysgol Bangor i weinyddu ar gyfer y grŵp uchod.

**2.1.4** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r canlynol ar gyfer ail gam y cynllun costau byw ar gyfer trigolion Ynys Môn sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog / cyn-filwyr ac sydd mewn caledi ariannol. Bydd y taliad o hyd at £300 i bob aelwyd sy'n wynebu caledi yn seiliedig ar anghenion asesedig.

- £10,000 i'w ddarparu i Leng Brydeinig Ynys Môn a SAFFA i gefnogi cyn-filwyr sy'n wynebu caledi.

**2.1.5** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r grŵp canlynol ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd mewn caledi ariannol ac sydd heb fynediad at gyllid caledi ychwanegol, megis y Gronfa Cymorth Dewisol. Fe all y cyllid gefnogi costau bwyd a thanwydd.

Bydd yr agwedd hon yn cefnogi trigolion sydd yn wynebu tlodi er eu bod mewn gwaith. Bydd y taliad hwn o hyd at £300 yn seiliedig ar anghenion asesedig a gellir ei weinyddu gan ein Huned Hawliau Lles mewnol (O'Toole), ein Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn.

Bydd yr agwedd hon yn cynnwys bob bob math o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a bydd yn canolbwyntio ar dystiolaeth o galedi.

- £100,000 i'w weinyddu gan ein Huned Hawliau Lles mewnol (O'Toole), ein Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn.

**2.1.6** Mae gan Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Ynys Môn yr awdurdod i gynyddu cyllidebau sefydliadau yn seiliedig ar achosion busnes derbyniol, sy'n dangos yr angen a'r galw.

## 3. Crynodeb

**3.1** Yn seiliedig ar y cynigion uchod, mae cyfanswm y symiau a ddyrennir fel a ganlyn:-

| Categori | Cyfanswm a Ddyrennir £ |
|---|---:|
| Unigolion sydd ddim yn gymwys i'r prif gynllun | 150,000 |
| Trigolion sy'n symud allan o lety argyfwng | 50,000 |
| Trigolion mewn Addysg Uwch | 10,000 |
| Cyn aelodau o'r lluoedd arfog / cyn-filwyr | 10,000 |
| Unigolion sy'n wynebu caledi ac sydd heb fynediad at unrhyw gronfeydd cymorth eraill | 100,000 |
| **CYFANSWM A DDYRENNIR** | **320,000** |

**3.2** Mae hyn yn gadael balans o £260,000 i'w ddyrannu, er fe all y ffigwr hwn newid (fel ym mharagraff 2.1.6 uchod), gan ddibynnu faint o bobl fydd yn ei hawlio. Unwaith y bydd y prif gynllun wedi cael ei gwblhau, bydd modd gweld faint o gyllid fydd yn cael ei drosglwyddo i'r cynllun dewisol. Bydd angen gwaith pellach i asesu effaith y prif gynllun a cam 1 o'r cynllun dewisol, bydd hyn o gymorth pan yn penderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid sy'n weddill.

**3.3** Byddwn yn cyflwyno adroddiad arall i'r Pwyllgor Gwaith yn argymell sut i ddefnyddio gweddill y cyllid (Cam 2 y Cynllun Dewisol). Fe all yr opsiynau gynnwys targedau cyllid i gategorïau pellach o drigolion sy'n parhau i ddioddef caledi ariannol, dyfarnu taliadau pellach i'r rheiny sydd eisoes wedi derbyn grant drwy'r cynllun dewisol, gwneud taliadau pellach i aelwydydd penodol sydd wedi derbyn £150 drwy'r prif gynllun neu daliadau grant i gyrff sy'n helpu a chefnogi unigolion sy'n wynebu caledi.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bydd y Prif Gynllun yn cynnwys 75%-80% o aelwydydd Ynys Môn, a bydd pob un o'r aelwydydd hyn yn derbyn £150.

Bydd Cam 1 (y Cynllun Dewisol) yn cynnwys grwpiau bregus a bydd yn galluogi gwasanaethau Cynhwysiant Ariannol, Hawliau Lles a darparwyr gwasanaethau dyledion i gefnogi aelwydydd sydd mewn angen. Cafodd categorïau eraill eu hystyried, ond roedd y Swyddogion yn ymwybodol y gallai ehangu'r meini prawf arwain at dderbyn mwy o geisiadau nac y gellir eu talu gan y cyllid fydd ar gael.

Bydd Cam 2 y Cynllun Dewisol yn rhoi'r cyfle i ddarparu cymorth ariannol i grwpiau arall o breswylwyr nad ydynt wedi derbyn cymorth gan y Prif Gynllun nac o dan Cam 1 o'r Cynllun Dewisol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Ystyrir bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ddim yn berthnasol

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ddim yn berthnasol – cyllid Llywodraeth Cymru

**Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Yn achos trigolion sy'n derbyn cynhwysiant ariannol a / neu hawliau lles a / neu gyngor ar ddyledion fel rhan o'r gwasanaeth hwn, fe all gael effaith gadarnhaol ar eu sefyllfa ariannol bersonol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Fe all caledi ariannol arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau eraill y Cyngor. Trwy gefnogi grwpiau bregus sydd heb dderbyn cyllid drwy'r prif gynllun costau byw, efallai y gellir lleihau costau'r Cyngor yn y dyfodol. |

| **Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i’r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Mae pob Cyngor unigol yng Nghymru yn gyfrifol am ddyluniad y cynllun, ac mae ganddynt ryddid i gyfeirio’r cyllid i’r rheiny sydd fwyaf mewn angen yn eu hardaloedd hwy. Er hyn, mae trafodaethau ar y math o gategorïau y dylid eu cyllido drwy’r cynllun dewisol wedi cael eu cynnal ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae’r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Na |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Dim wedi’u hasesu<br>EIA Mehefin 2022.docx |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol | Ystyriwyd pob grŵp |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg | Dim effaith |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad |
| **2** | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Cwblhawyd y darn hwn o waith drwy ymgynghori’n llawn â Swyddog Adran 151 CSYM |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro | Dim sylwadau na gwrthwynebiad o safbwynt cyfreithiol |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Ddim yn berthnasol |
| **5** | Eiddo | Ddim yn berthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Ddim yn berthnasol |
| **7** | Caffael | Ddim yn berthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Ddim yn berthnasol |
| **9** | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol |

**F - Atodiadau:**

Dim

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):**

Dim